Gweinyddiaeth Cyfiawnder a'r
Adran Addysg

Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu:

System sydd â phlant a theuluoedd yn ganolog iddi

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
drwy Orchymyn ei Mawrhydi

Chwefror 2012

Cm 8273 £21.25

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn i www.education.gov/publications

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawr lwytho ar www.official-documents.gov.uk

ISBN: 9780101827324

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyf

ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID P002475320 02/12

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Cynnwys

A: Rhagair ar y Cyd **3**

B: Strwythur yr adroddiad hwn **6**

C: Diwygio – dadl ddiamheuol dros newid **8**

Cyd-destun – system sydd dan bwysau 8
Rydym i gyd yn gyfrifol am wneud i newid ddigwydd 9
Prif egwyddorion diwygio 10

D: System sydd ag anghenion plant yn ganolog iddi **12**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 12
Beth y byddwn yn ei wneud 13

E: Newidiadau i gyfraith gyhoeddus **14**

Beth y byddwn yn ei wneud 15
Rôl arbenigwyr 16
Gweithio gydag awdurdodau lleol 16
Canolbwyntio ar fabwysiadu 18
Mynd i'r afael ag oedi 18

F: Newidiadau i gyfraith breifat **20**

Beth y byddwn yn ei wneud 20
Cefnogaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus 21
Dod o hyd i atebion heb fynd i'r llys 21
Cymorth i rieni sy'n gwahanu a rhieni sydd wedi gwahanu 22
Pwysigrwydd teidiau a neiniau 24
Lle mae angen i achosion fynd i'r llys 24
Ysgaru 25

G: Datblygu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol a'r system arweiniad **27**

Beth y byddwn yn ei wneud 27
Beth mae hyn yn ei olygu i Cafcass a Cafcass Cymru 29

H: Y farnwriaeth a'r gweithlu ehangach 30

Beth y byddwn yn ei wneud 30

Defnyddio ystod o leoliadau 31

Darlun o ddiwygiadau ehangach – Adolygiad Munro 32

I: Effeithiau diwygio 34

J: Beth sy'n digwydd nesaf.. 35

K: Atodiad 1 – Ymateb manwl i bob argymhelliad 36

L: Atodiad 2 – Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfiawnder teuluol; yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd 92

M: Atodiad 3 – Asesiadau Effaith ac Asesiad o Gydraddoldeb 94

N: Atodiad 4 – Cyfeiriadau allweddol a dogfennau ategol defnyddiol 96

A: Rhagair Gweinidogol ar y Cyd

Mae'r system Cyfiawnder Teulu yn gwneud penderfyniadau sy'n newid bywydau pobl, ac sy'n effeithio ar filoedd o blant a theuluoedd bob blwyddyn. Ond, fel mae'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu wedi nodi, mae'n system lle ceir gormod o oedi, costau, biwrocratiaeth a diffyg ymddiriedaeth. Mae gan y cyhoedd berffaith hawl i ddisgwyl mwy.

Rydym yn falch iawn felly o allu ymateb mor gadarnhaol i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu. Diwygio Cyfiawnder Teulu ac amddiffyn plant yw un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n gweithio mor galed yn y system bresennol, dan bwysau gwirioneddol. Rydym yn awyddus i ymuno â nhw er mwyn gwella'r system, gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud a gweithredu ar sail hynny. Mae'r negeseuon a welir yma, a'r argymhellion rydym yn eu gwneud, yn berthnasol i bob rhan o'r system – rhaid i bawb chwarae ei ran.

Mae oedi'n difetha bywydau. Un o'r ystadegau sy'n peri gofid i ni yw bod pob 2 fis o oedi i blentyn ifanc yn cyfateb i 1% o'i holl blentyndod. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n cymryd 55 wythnos ar gyfartaledd i gwblhau achos gofal – ac mae llawer o achosion yn cymryd llawer iawn mwy. Dyma rai o blant mwyaf agored i niwed ein cymdeithas. Mae'n gwbl annerbyniol bod oedi'n gyffredin mewn cynifer o ardaloedd.

Mae problemau ym maes cyfraith teulu preifat yn peri gofid hefyd. Yn rhy aml, mae cyplau sy'n ysgaru yn ffraeo dros faterion hynod o sensitif ac emosiynol mewn amgylchedd gwrthwynebus y llys, pan y gallent fod wedi datrys eu anghydfodau'n gynt, yn symlach ac ar y cyd y tu allan i'r llys. A phan fydd barnwyr yn rhoi dyfarniad – yn enwedig penderfyniadau sy'n pennu sut y dylai rhieni sydd wedi gwahanu rannu'r cyfrifoldeb dros eu plant – mae'r lefel cydymffurfio yn rhy isel ac nid yw gorfodi'n effeithiol.

Mae'n rhaid newid er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Rydym yn cefnogi galwad yr Adolygiad am ddiwygiadau sylfaenol sy'n cael gwared ar oedi diangen ac sy'n sicrhau bod dulliau cyfryngu ar gael a bod pobl yn cael eu hannog i'w defnyddio. Mae angen i ni hefyd wella sut mae cyplau'n cydymffurfio â phenderfyniadau. Mae hyn yn golygu annog cynlluniau rhianta cynnar, cydsyniol, sy'n ddigon cryf i wrthsefyll perthynas sy'n chwalu. Mae'n golygu gwella'r dewisiadau gorfodi sydd ar gael pan na fydd un rhiant yn cydymffurfio â'r penderfyniadau a wneir drwy gyfryngu neu gan farnwr. Mae'n golygu gwneud mwy na'r argymhellion blaenorol ac egluro'n well nad oes rhagfarn gyfreithiol sylfaenol tuag at y fam na'r tad. Pan nad oes materion lles sylweddol, rydym yn credu y dylem atgyfnerthu'r egwyddor drwy gyfraith ei bod er lles gorau'r plentyn i gael perthynas lawn a pharhaus â'r ddau riant. Rydym yn ymwybodol o'r drafodaeth am y mater hwn, ac mae'r dadleuon yn gymhleth iawn. Fodd bynnag, os ydym am wella pa mor effeithiol yw cyfraith teulu, rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid cryfhau hyder teuluoedd mewn tegwch.

4 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu:
System sydd â phlant a theuluoedd yn ganolog iddi

Gyda'i gilydd, mae ein cynigion ar gyfer cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat yn ategu argymhellion Adolygiad Munro i amddiffyn plant, gwaith Martin Narey ar fabwysiadu, diwygiadau Cymorth Cyfreithiol a Chyfiawnder Sifil sy'n ceisio sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys yn gynnar, yn gyflym ac yn fwy fforddiadwy, a'r ymdrechion ehangach rydym yn eu gwneud i gefnogi teuluoedd. Mae'r polisïau hyn yn dangos bod y Llywodraeth hon yn benderfynol o ymdrin â chyfiawnder teuluol mewn ffordd sy'n rhoi anghenion cymdeithas o flaen biwrocratiaeth.

Bydd y diwygiadau rydym yn eu cynnig yn arwain at newid ar draws y system. Mewn achosion ysgaru a chyswllt, rydym yn gobeithio y bydd gwybodaeth well, cyfryngu a neges glir ynghylch cyfrifoldeb rhieni yn lleihau achosion o wrthdaro ac oedi, ac yn sicrhau bod modd gwneud trefniadau parhaus. Ar gyfer achosion gofal, bydd ein newidiadau'n cyflymu'r system yn sylweddol, ac yn helpu, yn hytrach na rhwystro'r bobl broffesiynol ymroddgar yn y system sy'n ymdrechu i ganolbwyntio ar anghenion y plentyn. Rydym yn argyhoeddedig bod arweiniad gan Weinidogion yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni newid pwysig mewn achosion cyfraith gyhoeddus – byddwn ar y blaen yn llywio'r gwaith hwn, gan roi arweiniad ac ysgogiad personol.

Ni fyddai'n wir dweud mai nawr y mae'r gwaith yn dechrau – mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod ers cyhoeddi'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu. Mae GLITEM a'r farnwriaeth wedi creu Awdurdod Materion Teuluol sy'n canolbwyntio ar ddiwygio er mwyn gwella perfformiad llysoedd teulu, tra mae Llywydd yr Adran Deulu wedi penodi Mr Ustus Ryder i rôl y Barnwr â Gofal am Foderneiddio. Rydym eisoes wedi ymrwymo i bennu terfyn amser o 6 mis ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus, ar ôl cyhoeddi cynnydd o ddwy ran o dair i'r cyllid ar gyfer cyfryngu mewn achosion cyfraith breifat, ac rydym wrthi'n cyhoeddi'r data a fydd yn helpu i wella'r system. Rydym hefyd wedi dechrau cynlluniau i sefydlu Bwrdd Cyfiawnder Teulu. Cyn gynted ag y bo modd byddwn yn mynd ar drywydd yr ystod o newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n cael eu hamlinellu gennym yma fel bod y fframweithiau priodol yn eu lle i sbarduno gwelliant.

Rydym yn ymwybodol bod yr ymateb hwn yn cael ei gyhoeddi mewn cyd-destun o ddiwygiadau ym maes cymorth cyfreithiol. Bydd y diwygiadau hyn yn effeithio ar gyfiawnder teuluol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y diwygiadau i gymorth cyfreithiol yn cefnogi ac yn mynd i'r un cyfeiriad â'n newidiadau arfaethedig i gyfiawnder teuluol, megis galluogi cyplau i ddatrys eu anghydfodau heb orfod mynd i'r llys, defnyddio ffyrdd eraill yn hytrach na mynd i'r llys, er enghraifft cyfryngu a gwneud achosion yn fwy syml os byddant yn mynd i'r llys.

Yr ymateb ffurfiol hwn yw dechrau'r cam newydd yn y gwaith hwn. Mae'n ddechrau ar y broses o newid diwylliant, un sy'n hollbwysig ar gyfer datrys achosion gofal yn gynt. Nid ydym yn cynnig ateb terfynol i bob problem yma. Ni fydd y newidiadau y byddwn yn mynd ar eu trywydd yn digwydd dros nos – rhaid inni fod yn glir ynglŷn â hynny o'r dechrau er mwyn cadw momentwm. Bydd ein hymrwymiad yn gryf a byddwn yn ei gynnal.

Mae llawer o'r hyn sy'n cael ei amlinellu yma, o ganlyniad, yn uchelgeisiol – ond gwyddom fod y rhai sy'n gweithio yn y system bresennol, a'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddi, yn crefu am weledigaeth o'r fath i uno y tu ôl iddi. Edrychwn ymlaen at weld y newidiadau cyntaf yn cael eu rhoi ar waith, ac at weld system newydd o gyfiawnder teuluol yn gwreiddio.

Rydym yn ddiolchgar i'r panel adolygu am nodi'n glir ble mae'r problemau, ac am awgrymu'n fedrus beth y gallem ei wneud er mwyn gwella pethau. Mae'r aelodau wedi bod yn drylwyr iawn ac roedd eu profiad yn werthfawr iawn. Hoffem ddiolch hefyd i bawb a ddarparodd wybodaeth ar gyfer y gwaith ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r ystod eang hwnnw o randdeiliaid sydd â diddordeb er mwyn cyflwyno system sydd wirioneddol wedi'i diwygio.

Y Gwir Anrhydeddus
Ken Clarke,
Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder

Y Gwir Anrhydeddus
Michael Gove,
Ysgrifennydd Gwladol
dros Addysg.

B: Strwythur yr adroddiad hwn

1. Mae'r ymateb hwn yn nodi'n gweledigaeth ar gyfer y ffordd y bydd y Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan weithio gyda phartneriaid allweddol, yn diwygio'r system Cyfiawnder Teulu, ac yn ei gwella ar gyfer y plant a'r teuluoedd sy'n dod i gysylltiad â hi. Mae gennym uchelgais fawr a bydd yn cymryd amser i'w gweithredu, ond mae'r ewyllys a'r awydd i wneud gwahaniaeth yn gryf iawn.

2. Rydym wedi grwpio ein hymatebion i argymhellion Panel yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu ar sail y themâu sydd ym mhrif ran eu hadroddiad. Byddwn yn dechrau â system sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan mai hon yw'r egwyddor ganolog sy'n sail i'r holl ddiwygiadau eraill. Yna byddwn yn ystyried y newidiadau y byddwn yn eu gwneud i gyfraith gyhoeddus a phreifat, ac yn olaf, byddwn yn trafod sut y mae'r newidiadau hyn yn rhan o system newydd o gyfiawnder teuluol a beth y mae hyn yn ei olygu o ran cydweithio mwy effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol.

3. Rydym yn falch iawn o allu derbyn y mwyafrif helaeth o argymhellion y Panel. Mae *Atodiad 1* yn nodi'r ymateb i bob argymhelliad unigol, y rhesymau dros ein hymateb, a'r newidiadau manwl y byddwn yn eu gwneud.

4. Bydd angen digon o egni, a bwriadwn weithio'n gyflym. Mewn rhai meysydd mae angen i ni wneud mwy o waith rhagbaratoawl cyn y gallwn wneud newidiadau mawr, a byddwn yn ymgysylltu â theuluoedd, y rhai sy'n gweithio yn y maes a'n partneriaid wrth i ni wneud hyn, er mwyn sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol, ond cyn gynted ag y bo modd o hyd. Mae amserlen fanwl sy'n nodi pa bryd y bydd newidiadau allweddol yn cael eu gwneud i'w gweld yn *adran J*. Edrychwn ymlaen at weithio mewn cysylltiad agos ag ystod eang o bartneriaid cyn gynted ag y bo modd yn y broses wrth inni ymgymryd â'r gwaith manylach.

5. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn rhannu'r egwyddor bod lles plant yn bwysicach na dim, ac mae'r naill a'r llall wedi ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyflawni diben cyffredin, sef cael system fwy cydlynol. Dylai teuluoedd gael gwasanaeth di-dor nad yw wedi'i gyfyngu gan ffiniau neu gyfrifoldebau cenedlaethol. O ganlyniad, nid ydym wedi ceisio manylu yma ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng fframweithiau cyfreithiol, fframweithiau ymarfer neu adolygiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, meysydd allweddol i'w nodi yw'r dyletswyddau penodol a roddwyd i Weinidogion Cymru a Cafcass Cymru yng nghyswllt cydymffurfio â'r cynllun hawliau plant statudol a'r rhaglen ddiwygio drwy *Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*.

6. Disgwyliwn y bydd yr ymateb hwn yn cael ei ddarllen gan ystod eang o bobl - barnwyr, ynadon, cyfreithwyr, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, gweithwyr cymdeithasol, rhieni, teidiau a neiniau, academyddion, grwpiau â diddordeb arbennig. Ceir canllaw i bobl ifanc hefyd i gyd-fynd â'r ymateb hwn. Cyfrannodd plant a phobl ifanc tuag at yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu, gan gyfeirio at eu profiadau hwy o'r hyn a weithiodd yn dda iddynt hwy, ac at bethau y teimlent bod

angen eu newid. Rydym yn falch o allu adrodd yn ôl a dweud wrthynt sut y bwriadwn weithredu ar sail yr hyn a ddywedwyd ganddynt. Gallwch ddarllen y fersiwn pobl ifanc yn www.education.gsi.gov.uk/publications

C: Diwygio – dadl ddiamheuol dros newid

7. Rydym yn ddiolchgar iawn i David Norgrove a Phanel yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu. Mae eu hadroddiadau Interim a Therfynol yn rhoi dadansoddiad manwl a thrylwyr o broblemau'r system bresennol ac atebion radical er mwyn eu datrys. Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cydnabod eu dadansoddiad ac yn derbyn bod angen diwygio. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Adolygiad o'r heriau ac yn rhannu ei ymrwymiad i'r diwygiad hwn. Heb os nac oni bai, mae'n hynod o bwysig – ac mae angen i ni weithredu.

8. Nid yw hanfodion Deddf Plant 1989 wedi newid. Yn sicr, budd pennaf y plentyn ddylai'r ystyriaeth bwysicaf fod ym mhob achos. Mae'n briodol y dylai achosion fod yn seiliedig ar yr egwyddor o 'ddim oedi'. Mae hefyd yn briodol, os gellir datrys anghydfod heb orchymyn llys ffurfiol, na ddylid gwneud gorchymyn llys. Byddai pawb sy'n gweithio yn y system yn cefnogi'r egwyddorion hyn, ond nid yw'r system yn llwyddo i'w cyflawni er budd plant. Ni all fod yn iawn bod plant yn aros 55 wythnos, ar gyfartaledd, i lys benderfynu a yw am wneud gorchymyn gofal ai peidio. Ni all fod yn iawn ychwaith bod rhieni sy'n gwahanu yn mynd i'r llys cyn rhoi cynnig priodol ar ffyrdd eraill o ddatrys anghydfod.

Cyd-destun – system sydd dan bwysau

Mae nifer yr achosion wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac maent yn dal i gynyddu. Roedd nifer y plant a oedd yn rhan o geisiadau cyfraith gyhoeddus 10% yn uwch yn y 12 mis diwethaf nag yn y 12 mis blaenorol[1]. Yn yr un modd, roedd hyn 10% yn uwch yn 2010 o'i gymharu â 2006[2].

Mae achosion gofal a goruchwylio yn cymryd mwy o amser – mae ceisiadau'n cymryd 55 wythnos ar gyfartaledd[3].

Mae tua 20,000 o blant yn aros am benderfyniad mewn achosion cyfraith gyhoeddus ar hyn o bryd, o'i gymharu â thua 11,000 ar ddiwedd 2008[4].

Amcangyfrifodd yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu fod cyfanswm cost achosion cyfraith gyhoeddus yn fwy nag £1 biliwn yn 2009-10.

9. Bob blwyddyn mae miloedd o blant ac oedolion yn ymwneud â'r system Cyfiawnder Teulu. Mae'n system sy'n ymdrin â materion anodd iawn, sy'n peri llawer o ofid, ac mae teuluoedd yn dod i gysylltiad â hi ar adegau tyngedfennol o bryder a gwrthdaro enbyd. Mae penderfyniad i roi plentyn mewn gofal yn un o'r penderfyniadau anoddaf y gall llys ei wneud, ac mae'n peri llawer o ofid i bawb.

1 Mae'r data ar gyfer Ch4 2010 i Ch3 2011 a Ch4 2009 i Ch3 2010. Mae'r ffigurau'n amodol. Court Statistics Quarterly, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Ion 2011.
2 Judicial and Court Statistics, 2010. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
3 Mae'r data ar gyfer Ch3 2011. Mae'r ffigurau'n amodol. Court Statistics Quarterly, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Ion 2011.
4 Mae'r data ar gyfer Medi 2011 ac wedi eu codi o wybodaeth rheoli fewnol.

Mewn cyfraith breifat gall teuluoedd sy'n gwahanu wynebu problemau sydd yr un mor drawmatig ac emosiynol.

10. Wrth ymdrin ag achosion lle mae perthynas yn chwalu rhaid i'r system sicrhau ei bod yn ceisio cael y canlyniadau mwyaf cadarnhaol posibl i bob plentyn a theulu. Gall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gael ôl-effeithiau eang, sy'n para'n hir, nid yn unig o ran y teuluoedd dan sylw, ond hefyd o ran y gymdeithas ehangach.

11. Mewn achosion cyfraith gyhoeddus y gwelir rhai o'r penderfyniadau mwyaf tyngedfennol sy'n ymwneud â dyfodol plentyn, ac mae'r materion yn haeddu cael eu hystyried yn drylwyr, ond rydym yn derbyn bod achosion yn aml iawn yn cymryd llawer gormod o amser i fynd drwy'r llysoedd. Rydym wedi ymrwymo i leihau oedi a sicrhau bod anghenion plant yn dal yn ganolog i'r system Cyfiawnder Teulu.

12. Mae'n ofid i ni bod anghydfodau syml mewn cyfraith breifat yn aml iawn yn cael eu dwyn i'r llys. Y tristwch, mewn llawer gormod o achosion, yw bod plant yn cael eu tynnu i mewn i'r ddadl pan fo rhieni'n cael eu brifo ac yn teimlo'n chwerw. Mae perygl i'r system roi hawliau'r rhieni cyn hawliau'r plant. Yn rhy aml hefyd, rydym yn canolbwyntio ar y broses, yn hytrach na helpu'r rhai sydd angen y broses.

13. Disgrifiwyd y system yn yr Adolygiad fel *"set o drefniadau sydd mewn argyfwng sy'n datblygu'n araf"*[5]. Yn yr enghreifftiau gwaethaf gall y system arwain at ansicrwydd parhaus i blant, a rhoi eu datblygiad a'u lles yn y fantol. Mae'r system hon hefyd yn gostus iawn, i'r unigolion ac i'r trethdalwr.

14. Er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol cynigiodd yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu bod yn rhaid i ni fynd i'r afael â'r oedi gormodol mewn achosion gofal, datblygu gwell cefnogaeth i rieni sy'n gwahanu i'w helpu i osgoi'r angen i fynd i'r llys o gwbl ac adeiladu system symlach, a mwy cydlynol ar gyfer Cyfiawnder Teulu.

15. Rhaid i ni fynd yn ôl at y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r system Cyfiawnder Teulu. Fel y cadarnhaodd yr Adolygiad *"Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ymgynghoriad bod y fframwaith cyfreithiol yn gadarn ac mai lles y plentyn ddylai fod yn brif ystyriaeth yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arno"*[6].

16. Ar ôl edrych ar bob argymhelliad rydym yn gwbl bendant ei bod yn hanfodol bod gennym system sy'n gweithio i blant.

Rydym i gyd yn gyfrifol am wneud i newid ddigwydd

17. 16. Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Lloegr rôl arwain hollbwysig yn y system hon, ond ni all y Llywodraeth sicrhau newid ar ei phen ei hun. Os ydym am ail-ganolbwyntio'r system ar anghenion plant bydd angen i bob un o'r prif chwaraewyr newid: y farnwriaeth, awdurdodau lleol a chyfreithwyr teulu, yn ogystal â'r llysoedd a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass a Cafcass Cymru). Ni ellir edrych ar y rhaglen ddiwygio sy'n cael ei hamlinellu yn yr ymateb hwn ar ei phen ei hun. Mae'n ategu'r gwaith

5 Family Justice Review Final Report executive summary, 6, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

6 Family Justice Review Final Report, 2.3, dolen gyswllt fel uchod.

ehangach rydym yn ei wneud – i godi safonau mewn gwaith cymdeithasol yn dilyn Adolygiad Munro[7] a'r Rhaglen Diwygio Gwaith Cymdeithasol[8] yn Lloegr a *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*[9]; â diwygiadau i'r llysoedd, wedi'u cynllunio i symleiddio prosesau, ac i helpu ymgyfreithwyr i lywio eu ffordd drwy achosion; yn ogystal â diwygiadau i Gymorth Cyfreithiol sy'n ceisio annog partïon i ddatrys eu hanghydfodau heb fynd i'r llys.

18. Gwyddom fod gan y system weithwyr proffesiynol ymroddedig, sydd eisiau sicrhau bod plant yn ganolog iddi unwaith eto, ac rydym yn awyddus i roi'r grym iddynt allu gwneud hynny.

19. Fel y mae'r Adolygiad wedi cydnabod, yn gwbl briodol, nid rhagor o arian yw'r ateb. Mae angen diwygiadau sylweddol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn y tymor byr a'r tymor hir yn y system, a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Nid camau a fwriadwyd er mwyn arbed arian yw'r rhain, ond camau i geisio cywiro system sydd mewn perygl o wneud cam â'r rhai y mae i fod i'w diogelu.

20. Byddwn yn gweithio'n gyflym er mwyn cyflwyno gwelliannau'n fuan. Gall rhai newidiadau ddigwydd ar unwaith, er enghraifft, creu Bwrdd Cyfiawnder Teulu, a rhaglenni gwaith newydd gyda'n partneriaid. Byddwn yn gweithio mewn cysylltiad agos iawn ag Awdurdodau Lleol a'r farnwriaeth er mwyn cyflawni hyn, ac wrth iddynt gyflwyno eu rhaglenni diwygio eu hunain. Mae eraill yn galw am newid deddfwriaethol y byddwn yn mynd ar ei drywydd cyn gynted ag y bo modd, ond a fydd yn cymryd mwy o amser i'w weithredu.

Prif egwyddorion diwygio

21. Mae ein hymatebion i argymhellion yr Adroddiad yn seiliedig ar nifer o brif egwyddorion–

Lles **y plentyn** yw'r brif ystyriaeth o hyd mewn unrhyw achos sy'n penderfynu ynglŷn â magwraeth y plentyn;

Y teulu bron bob amser yw'r **lle gorau i fagu plant**, ac eithrio lle mae perygl o niwed sylweddol;

Mewn cyfraith breifat yn fwyaf penodol, dylai problemau gael eu **datrys heb fynd i'r llys**, a dim ond lle mae hynny'n wirioneddol angenrheidiol y dylai'r llysoedd gael eu defnyddio;

Os llys yw'r dewis priodol, mae plant yn haeddu llys teulu lle mae **eu hanghenion hwy'n dod yn gyntaf**;

Mewn achosion cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat rhaid i blant gael cyfle i **leisio'u barn** ynglŷn â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;

Rhaid i'r broses **amddiffyn plant sy'n agored i niwed**, a'u teuluoedd;

7 Munro Review in England.
8 Social Work Reform – http://www.education.gov.uk/swrb
9 Sustainable Social Services for Wales – http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=en

Nid tasg lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i gyfyngu i sefydliad penodol yw hon, ond rhywbeth y mae'n **rhaid i ni i gyd weithio arno gyda'n gilydd**; a

Rhaid cadw **annibyniaeth farnwrol** wrth i'r system gael ei gwneud yn fwy cydlynol a chael ei rheoli'n fwy effeithiol.

22. Gan gadw hyn mewn cof, byddwn yn ceisio cyflwyno nifer o newidiadau pwysig a gynigiwyd yn yr Adolygiad – er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed - i gyfraith gyhoeddus, i gyfraith breifat, i'r gweithlu, a hefyd i'r system.

D: System sydd ag anghenion plant yn ganolog iddi

Drwy'r diwygiadau rydym yn eu cynnig byddwn yn cyflwyno camau ymarferol er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn ystod proses y llys.

23. Gall canlyniadau llysoedd teulu ddylanwadu ar fywydau plant am byth. Dyna pam y mae newidiadau er mwyn gwella profiadau plant yn ganolog i'r diwygiadau hyn.

24. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad *"Mae buddiannau plant yn ganolog yng ngweithrediad y system Cyfiawnder Teulu. Dylid cymryd dymuniadau plant i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau a dylai plant wybod beth sy'n digwydd a pham"*[10]

25. Mae plant yn haeddu cael eu clywed, teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt a deall beth sy'n digwydd drwy gydol y broses. Mae angen iddynt wybod hefyd pam y mae rhai penderfyniadau wedi cael eu gwneud. Mae angen sgiliau arbennig iawn i gael y cydbwysedd cywir rhwng gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ond peidio â gwneud iddynt deimlo eu bod yn gyfrifol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytuniad hawliau dynol sy'n nodi set gynhwysfawr o hawliau i blant yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cadarnhawyd y Confensiwn gan y DU yn 1991, ac mae'n sicrhau drwy hynny bod ei chyfraith a'i pholisïau cenedlaethol yn cydymffurfio â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn.

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i hyrwyddo a gweithredu'r Confensiwn ar draws y DU o ddifrif. Rydym wedi ymrwymo i roi ystyriaeth briodol i'r Confensiwn wrth wneud polisïau a deddfwriaeth newydd[11].

Yng Nghymru, byddwn yn cyhoeddi'r 'Cynllun Plant' cyn bo hir, sy'n nodi trefniadau ar gyfer Gweinidogion Cymru wrth iddynt roi ystyriaeth i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn y Confensiwn a'i brotocolau dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[12].

Bydd prif egwyddorion ein diwygiadau yn mynd ati o ddifrif i ddiwallu anghenion plant ac maent yn cydymffurfio'n llwyr ag 'egwyddorion cyffredinol' y Confensiwn, sy'n cynnwys:

peidio â gwahaniaethu;

- canolbwyntio ar y budd gorau i'r plentyn
- yr hawl i fyw, goroesi a datblygu; a
- pharch i farn y plentyn.

10 Family Justice Review Final Report, 8, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf
11 https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/CM-7981-WMS.doc
12 http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/?lang=en&ts=1

Beth y byddwn yn ei wneud

26. Rydym yn cefnogi (gweler ein hymateb manwl ynghlwm yn *Atodiad 1*) y cynigion a wnaethpwyd gan yr Adolygiad yng nghyswllt gwrando ar leisiau plant a sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu hystyried.

27. I ddechrau, cyfrifoldeb y Bwrdd Cyfiawnder Teulu newydd (gweler paragraff 88), i'w sefydlu cyn gynhared ag Ebrill 2012, fydd rhoi manylion y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn ar waith, a disgwyliwn y bydd fersiwn pobl ifanc o'r bwrdd yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd i gefnogi eu gwaith.

28. Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cafcass wedi gosod safonau uchel. Roedd yr Adolygiad yn nodi, *"Rydym yn edmygu'r gwaith gwerthfawr a wneir gan Fwrdd Pobl Ifanc Cafcass. Maent yn darparu persbectif pwysig ar waith y system Cyfiawnder Teulu ac yn cynnig her ddeallus ac egnïol i fwrdd Cafcass."*[13] Byddem yn disgwyl i unrhyw Fwrdd a sefydlir yn y system newydd weithredu yn yr un modd. Dylai'r Bwrdd ganiatáu i blant a phobl ifanc gyfrannu tuag at gynlluniau i weithredu argymhellion yr Adolygiad wrth iddynt ddatblygu, gan ddarparu eu persbectif hwy ynglŷn â sut y dylai system ddiwygiedig weithredu a rhoi sylw i'w problemau a'u pryderon.

29. O ran unigolion mae angen mwy o gysondeb yn y ffordd y mae plant yn cymryd rhan yn y prosesau llys sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae angen i'r gwaith hwn gael ei wneud â llawer iawn o ofal a sensitifrwydd, gan ymarferwyr sy'n deall beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu â phlant a gwrando arnynt gan ddibynnu ar eu hoed a'u hamgylchiadau.

30. Disgwyliwn y bydd y Bwrdd newydd yn mynd ati yn fuan i chwilio am ffyrdd newydd o gefnogi a chynnwys plant a phobl ifanc, yn datblygu gwybodaeth briodol i oedran plant er mwyn iddynt gael dealltwriaeth glir o'r hyn a allai ddigwydd iddynt ac yn cynnig ffyrdd amrywiol i'r plant gyfrannu. Drwy ddatblygu safonau a chanllawiau cenedlaethol, a defnyddio'r gwaith ymchwil diweddaraf a gwaith rhai sydd wedi cyfrannu'n barod yn y maes hwn, fel y Cyngor Cyfiawnder Teulu, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Teulu yn galluogi gweithwyr proffesiynol i deimlo'n fwy hyderus wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a chyfleu eu barn.

13 Family Justice Review Final Report 2.35, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

E: Newidiadau i gyfraith gyhoeddus

Bydd y newidiadau y byddwn yn eu gwneud mewn cyfraith gyhoeddus yn golygu system Cyfiawnder Teulu lle nad yw oedi'n dderbyniol mwyach a lle mae'r system yn canolbwyntio'n llawer cliriach ar y plentyn.

31. Mae'r oedi mewn cyfraith gyhoeddus yn peri llawer iawn o ofid. Gall oedi mewn achosion gofal fod yn niweidiol, a gall gael effaith hirdymor ar ddatblygiad plentyn ac ar ei siawns o ddod o hyd i gartref parhaol. Gall achosion hirfaith achosi ansicrwydd a phryder. Yn ôl yr Adolygiad *"AGall babi dreulio'i flwyddyn gyntaf, neu lawer mwy, yn byw gyda rhieni maeth, yn cael ei gludo o un lle i'r llall ar gyfer cyswllt â'i rieni biolegol, tra mae'r llysoedd yn penderfynu ynglŷn â'i ddyfodol. Po fwyaf o amser y mae'r achos yn ei gymryd, po fwyaf yw'r straen, ar blant ac oedolion"*[14].

32. I rai plant, y ffordd fwyaf priodol o ddiogelu a hybu eu lles yw eu rhoi mewn gofal. Yn ôl yr Adolygiad *"Mae tuedd i ddiystyru llwyddiannau'r system ofal. Dengys tystiolaeth y bydd y rhan fwyaf o'r plant sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso sy'n aros mewn gofal neu sy'n cael eu mabwysiadu yn dod yn eu blaenau'n well o ran lles a sefydlogrwydd na'r rhai sy'n aros yn eu cartrefi. Mae gofal yn gweithio i'r plant hyn"*.[15] Mae ymchwil agyhoeddwyd gan yr Adran Addysg ym mis Tachwedd 2011 *'Safeguarding children across services – messages from research'*[16] yn ategu'r sefyllfa hon. Yn ôl y gwaith ymchwil hwn "*mae'n bosibl mai gofal yw'r dewis gorau i rai plant sy'n cael eu cam-drin ac ni ddylai gael ei weld fel y dewis olaf*". Yn ôl y gwaith ymchwil hwn hefyd "*mae plant sydd wedi cael eu hesgeuluso a'u cam-drin yn emosiynol sy'n dychwelyd i'w cartrefi yn tueddu i beidio â dod yn eu blaenau cystal, ar sail dangosyddion lles a dangosyddionsefydlogrwydd, â'r rhai sy'n aros mewn gofal*." Cefnogir hyn hefyd gan dystiolaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.[17]

33. Mae plant sy'n rhan o achosion gofal eisoes ymhlith y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae'n annerbyniol bod prosesau a gynlluniwyd er mwyn eu hamddiffyn yn gallu ychwanegu at yr anawsterau y maent yn eu hwynebu.

34. Mae llawer o ymdrechion wedi'u gwneud dros y blynyddoedd i leihau hyd achosion. Mae pob un yn llawn bwriadau da, ond mae hyd achosion yn dal i gynyddu. Rhaid i ni gael dull mwy radical ac uchelgeisiol. Gwyddom fod yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn y maes hwn hefyd yn teimlo'n rhwystredig a'u bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn.

---

14 Family Justice Review Final Report, 2.9,http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

15 Family Justice Review Final Report, 3.24, dolen gyswllt fel uchod.

16 Tudalen 88 ymlaen, "*Safeguarding children across services - messages from research*" , Carolyn Davies a Harriet Ward, Tachwedd 2011, https://www.education.gov.uk/publications/RSG/AllRsgPublications/Page4/DFE-RBX-10-09

17 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod plant sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso sy'n aros mewn gofal neu sy'n cael eu mabwysiadu yn dod yn eu blaenau'n well, o leiaf yn y tymor byr/canolig, na'r rhai sy'n cael eu dychwelyd i'w cartrefi. Mewn rhai achosion, roedd y plant hynny a gafodd eu dychwelyd i'w cartrefi wedi cael eu cam-drin eto. *Giovannini, E. (2011). Outcomes of Family Justice Children's Proceedings – A Review of the Evidence.* Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Llundain.

35. Mae nifer o wahanol ffactorau wedi cyfrannu at y problemau. Mae prosesau aneffeithlon, sy'n gorgyffwrdd yn rhan o'r broblem, ond mae llawer o'r problemau'n mynd yn ddyfnach ac mae a wnelont ag agweddau a diwylliannau a gweithrediad y system yn ei chyfanrwydd: bwlch sgiliau hirfaith; diffyg llinellau atebolrwydd clir, lle nad oes un corff penodol yn gyfrifol am sicrhau bod achosion yn symud yn eu blaenau heb golli amser; cynnydd yn y llwyth achosion; diffyg ymddiriedaeth a diffyg cydweithio effeithiol rhwng y gwahanol asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r broses; a diwylliant sydd, yn rhy aml o'r hanner, yn caniatáu i nifer o asesiadau ychwanegol gael eu comisiynu tra nad oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i bwysigrwydd datrys achosion yn fuan er mwyn sicrhau lles plant.

36. Mae hyn i gyd wedi arwain at system lle mae oedi mewn achosion yn cael ei dderbyn fel rhywbeth anorfod, a dim digon o sylw'n cael ei roi yn aml iawn i'r effaith niweidiol ar y plentyn.

37. Mae arnom angen rhaglen ddiwygio a fydd yn mynd i'r afael â'r elfennau aneffeithlon yn gyflym ond a fydd hefyd, yn y tymor hwy, yn mynd yn ddyfnach; gan newid y diwylliant, cywiro'r bwlch sgiliau a sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n gadarnach o fewn amserlen benodol yn unol ag anghenion plant. Mae hyn yn adeiladu i raddau helaeth ar y pwyntiau a fynegwyd gan yr Athro Munro, y Rhaglen Diwygio Gwaith Cymdeithasol[18] a *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* [19] a gwaith rydym yn ei wneud yn barod. Mae'n rhaid i blant ddod yn gyntaf ym mhob un achos.

Beth y byddwn yn ei wneud

38. Gan adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad, mae ein diwygiadau'n seiliedig ar nifer o flaenoriaethau er mwyn dychwelyd at system sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

39. Er mwyn creu system lle mae achosion yn cael eu rheoli'n well, oedi'n cael ei leihau ac anghenion plant yn dod yn gyntaf byddwn yn:

    cyflwyno pwerau cliriach mewn deddfwriaeth newydd er mwyn sicrhau mai lles plant a'u hamserlen hwy, nid ffactorau eraill, fydd y brif ystyriaeth wrth benderfynu pa mor gyflym y mae achosion yn mynd yn eu blaenau. Byddwn yn datblygu canllawiau cliriach a hyfforddiant ynglŷn â pha ffactorau ddylai gael eu hystyried wrth sefydlu amserlen briodol ar gyfer pob plentyn ac yn datblygu prosesau clir yn y system er mwyn dilyn hynt achosion o'r dechrau i'r diwedd.

    gweithio gyda Llywydd yr Adran Deulu er mwyn sicrhau rôl newydd, gadarnach i'r barnwyr eu hunain wrth iddynt wneud penderfyniadau a sicrhau bod yr amserlen ar gyfer y plentyn yn cael ei dilyn. Byddwn yn cefnogi hyn, gan weithio gyda'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod yr un barnwr yn gweld achos o'r dechrau i'r diwedd a bod mwy a mwy o farnwyr sy'n gwrando achosion teulu yn arbenigwyr mewn cyfraith teulu.

18 http://www.education.gov.uk/swrb
19 http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=en

deddfu er mwyn rhoi mwy o ddisgresiwn i farnwyr wrth ystyried hyd Gorchmynion Gofal Dros Dro a'u hadnewyddu, a dileu'r cyfyngiadau diangen a phrosesau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau adnewyddu presennol.

Rôl arbenigwyr

40. Byddwn yn gweithredu er mwyn lleihau defnydd gormodol o adroddiadau arbenigwyr a gwella ansawdd a phrydlondeb y rhai sydd yn cael eu comisiynu.

41. Mae achosion gofal yn arwain at rai o'r materion anoddaf sy'n dod gerbron y llys. Mae arbenigwyr yn chwarae rhan bwysig drwy gynorthwyo'r llys i wneud y penderfyniad iawn wrth ystyried a ddylai'r plentyn gael ei roi mewn gofal ai peidio. Ond comisiynu nifer o adroddiadau gan arbenigwyr, a all fod yn ddyblygeb i'r dystiolaeth fanwl sydd wedi'i chynnig yn barod gan yr awdurdod lleol, neu yn ei lle, yw'r norm erbyn hyn. Canfu adolygiad o ffeiliau achos a gynhaliwyd yn ddiweddar fod arbenigwyr yn gysylltiedig â bron i 90% o'r achosion gofal, a lle mae arbenigwyr yn cael eu comisiynu, ar gyfartaledd, mae yna bron i bedwar adroddiad arbenigwr ym mhob achos[20]. Ceir amheuon ynghylch gwerth llawer o'r adroddiadau, tra gall yr oedi a'r costau ychwanegol sy'n arwain o hyn fod yn ddrud.

42. Byddwn yn deddfu er mwyn nodi'n glir na ddylai'r llysoedd roi caniatâd i gomisiynu tystiolaeth gan arbenigwyr mewn achosion teulu oni bai fod hynny'n angenrheidiol er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r achos a lle nad yw'r wybodaeth ar gael yn barod drwy ffynonellau eraill. Byddwn hefyd yn gofyn i'r llysoedd, wrth roi caniatâd i gomisiynu tystiolaeth gan arbenigwyr, roi ystyriaeth benodol i'r effaith y bydd yr oedi'n ei gael. Bydd angen i Awdurdodau Lleol chwarae eu rhan drwy ddarparu asesiadau cychwynnol cynhwysfawr o safon uchel.

43. Rydym hefyd yn cytuno â'r Adolygiad y dylid pennu safonau sylfaenol er mwyn sicrhau bod tystion sy'n cael eu comisiynu yn arbenigwyr yn eu meysydd a'u bod yn cynhyrchu tystiolaeth o safon uchel sy'n helpu'r llys i wneud ei benderfyniad. Byddwn yn ceisio datblygu'r safonau hyn drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu.

44. Rydym yn cytuno bod gwerth i dimau amlddisgyblaethol o arbenigwyr iechyd, fel a gynigiwyd yn wreiddiol yn adroddiad y Prif Swyddog Meddygol *Bearing Good Witness*[21], Byddwn yn dysgu'r gwersi o'r cynllun peilot gwreiddiol a gwaith gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Adran Iechyd, i gynllunio ffordd effeithiol o brofi'r dull hwn o weithredu.

Gweithio gydag awdurdodau lleol

45. Byddwn yn gweithredu er mwyn codi safonau arferion gofal cymdeithasol sydd, mewn rhai ardaloedd, wedi sbarduno'r diffyg ymddiriedaeth yn y dystiolaeth a gyflwynir gan awdurdodau lleol ac wedi achosi mwy o oedi. Mae ansawdd a phrydlondeb asesiadau gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflwyno i'r llysoedd yn dylanwadu'n fawr iawn ar pa mor gyflym y mae achosion yn mynd yn eu blaenau.

---

20 Cassidy, D. a Davey, S. (2011) *'Family Justice Children's Proceedings – Review of Public & Private Law Case files in England & Wales',* Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

21 Chief Medical Officer (2009). *Bearing Good Witness: Proposals for reforming the delivery of medical expert evidence in family law cases*. London, Department of Health.

Gall asesiadau gwael neu hwyr arwain at ohirio ac aildrefnu gwrandawiadau, ac maent yn golygu y gall llysoedd gomisiynu rhywun arall i gasglu tystiolaeth. Gan adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill yn dilyn Adolygiad Munro yn Lloegr, y Rhaglen Diwygio Gwaith Cymdeithasol a'r Adolygiad o'r *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod sgiliau paratoi a chyflwyno gwybodaeth i'r llys yn dod yn rhan annatod o hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol a pharhaus. Rydym yn cydnabod bod rhai arferion lleol arbennig o dda hefyd, ac rydym yn awyddus i weld yr arferion hyn yn cael eu rhannu gydag eraill er mwyn cael mwy o gysondeb.

46. Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig iawn i'w chwarae. Ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant yn Lloegr, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ac eraill yn y sector, byddwn yn datblygu rhaglen waith i'w gweithredu ar unwaith er mwyn canfod a rhannu'r arferion gorau a datblygu cydweithio agosach a threfniadau dysgu ar y cyd rhwng y llysoedd ac awdurdodau lleol. Byddwn yn gweithredu er mwyn sicrhau bod pob awdurdod yn gallu defnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi eu gwaith gyda theuluoedd.

47. Fel rhan o hyn, bydd dulliau sy'n cynorthwyo timau gwaith cymdeithasol i asesu gallu rhieni i newid yn bwysig iawn. Bydd mwy o waith o safon uchel, gyda phlant a theuluoedd yn sicrhau bod tystiolaeth mwy credadwy'n cael ei chyflwyno i'r llysoedd. Dylai plant aros gyda'u teuluoedd lle bynnag y mae hynny'n bosibl ond, lle mae angen i achosion ddod i'r llys, mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn a gwaith systematig gyda'r teulu. Byddwn yn annog defnydd cynnar o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda theuluoedd er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

48. Drwy'r rhaglen eang ar gyfer datblygu gweithlu, sy'n cael ei hamlinellu yn *adran H* isod, byddwn yn datblygu sgiliau'r holl weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r system ac yn cryfhau trefniadau cydweithio a dysgu ar y cyd. Rhoddir blaenoriaeth benodol i gynyddu dealltwriaeth o ddatblygiad plant ac effeithiau oedi.

49. Byddwn yn rhoi terfyn ar ddyblygu ac yn sicrhau bod canolbwynt priodol i rôl y llys. Mae prosesau dyblyg sy'n gorgyffwrdd yn ychwanegu at y pwysau ar adnoddau ac yn achosi oedi diangen. Byddwn yn deddfu er mwyn cywiro hyn mewn dau brif faes.

50. Yn gyntaf, y cynllun gofal. Yn rhannol oherwydd pryder ynglŷn ag ansawdd gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol, gall llysoedd dreulio llawer iawn o amser yn craffu ar fanylion cynlluniau gofal awdurdodau lleol ar gyfer plant cyn gwneud gorchmynion gofal. Yn ôl yr Adolygiad, mae gwaith craffu gan lysoedd *"yn mynd ymhellach na'r hyn y mae ei angen i benderfynu a yw gorchymyn gofal er y budd gorau i blentyn*[22]*"*. Gall manylion cynlluniau gofal newid gydag amser, a bydd hynny'n digwydd yn aml, mewn ymateb i newid yn anghenion plant. Gall manylion cynlluniau gofal newid dros gyfnod, a bydd hyn yn digwydd yn aml, mewn ymateb i newid yn anghenion plant. Er y bydd angen i'r llysoedd ystyried elfennau creiddiol y cynllun o hyd, yn y rhan fwyaf o'r achosion gallai a dylai'r

22 Family Justice Review Final Report, 61, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

manylion gael eu gadael i'r awdurdod lleol. Byddwn yn deddfu er mwyn gwneud hyn yn glir.

51. Yn ail, paneli mabwysiadu. Dan y trefniadau presennol, ni all awdurdodau lleol wneud cais am orchymyn lleoliad nes bydd achos wedi cael ei ystyried gan y panel mabwysiadu, y panel wedi gwneud ei argymhelliad a'r awdurdod lleol wedi gwneud ei benderfyniad. Gan fod yn rhaid i'r llys wneud y gwaith hwn p'un bynnag, byddwn yn dileu'r gofyniad hwn ac yn osgoi unrhyw ddyblygu.

Canolbwyntio ar Fabwysiadu

Gall mabwysiadu drawsnewid siawns mewn bywyd rhai o'r plant mwyaf agored i niwed a gwella'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Ac eto, mae'r system fabwysiadu'n gallu cael ei thanseilio gan oedi a all amddifadu plant o'r cyfle i gael eu mabwysiadu ac i gael dyfodol diogel a sefydlog.

Mae oedi yn y system llysoedd yn elfen sylweddol o hyn. Byddwn yn newid drwy weithredu'r mesurau a amlinellwyd uchod. Felly, os mabwysiadu yw'r canlyniad priodol i blentyn, bydd yn digwydd cyn gynted ag y bo modd.

Yn ogystal â gweithredu argymhellion yr Adolygiad rydym yn mynd i:

newid y broses a'r ffrâm amser ar gyfer recriwtio darpar fabwysiadwyr, sy'n hollbwysig i'r broses o fabwysiadu'r plant hyn sy'n agored i niwed;

cael gwared ar rwystrau ac elfennau eraill sy'n achosi oedi yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y plentyn, gan gynnwys hybu mwy o ddefnydd o leoliadau sy'n cydredeg a dod o hyd i deulu'n gynnar;

archwilio methiant yn y broses fabwysiadu a threfniadau cyswllt a beth mae hyn yn ei olygu o ran cefnogaeth fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu i blant a'u teuluoedd; a

datblygu fframwaith perfformiad gan adeiladu ar y tablau data a gyhoeddwyd yn Hydref a Rhagfyr 2011.

Yn yr un modd yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i wella trefniadau mabwysiadu yng Nghymru fel rhan o'n *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*. Byddwn yn sefydlu Asiantaeth Mabwysiadu Genedlaethol i hwyluso'r broses mabwysiadu, i wella effeithlonrwydd, ac i gael llai o oedi a gwell canlyniadau i blant.

Mynd i'r afael ag oedi

52. Yn bwysicach na dim, byddwn yn gweithredu er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r system ofal yn canolbwyntio'n llwyr ar leihau'r oedi annerbyniol sy'n digwydd ar hyn o bryd a sicrhau gwell canlyniadau i bob plentyn

53. Mae'r egwyddor y dylai achosion fynd yn eu blaenau heb oedi diangen, ac ar gyflymder sy'n ystyried anghenion ac amgylchiadau plentyn eisoes yn rhan o'r fframwaith deddfwriaethol a gweinyddol sy'n rheoli achosion gofal. Fodd bynnag, nid yw wedi atal oedi sylweddol rhag digwydd yn y system.

54. Er mwyn anfon neges glir a diamwys i'r system bod newid yn hanfodol byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i bennu uchafswm ar gyfer y cyfnod a ganiateir i gwblhau achosion gofal. Roedd yr Adolygiad yn egluro y *"Gallai terfyn amser fod yn*

ysgytwad i'r system, gan chwalu'r disgwyliadau presennol, a chreu rheol newydd y byddai angen i bawb gadw ati[23]".

55. Ein nod yw darparu terfyn amser o chwe mis ar gyfer cwblhau achosion gorchmynion gofal a goruchwyliaeth cyn gynted ag y mae hyn yn rhesymol ymarferol. Dylai achosion y mae'n bosibl eu cwblhau'n gynt gael eu cwblhau'n llawer cynt. Byddai barnwyr yn cadw'r hyblygrwydd i ymestyn achos y tu hwnt i'r terfyn amser mewn achosion eithriadol lle mae hynny o fudd i'r plentyn, ac yn sicrhau ei les, a lle bo'r rhesymau dros hynny wedi cael eu nodi'n glir. Bydd y gofyniad cyfreithiol newydd hwn yn helpu i sicrhau bod cwblhau achosion yn gyflym yn dod yn norm, a bod mynd i'r afael ag oedi diangen yn cael y sylw parhaol y mae'n ei haeddu.

56. Byddwn yn gweithredu'n gyflym er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn. Lle mae angen newid deddfwriaethol, byddwn yn cyflwyno hyn cyn gynted ag y bo modd.

23 Family Justice Review Final Report, 3.68, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

F: Newidiadau i gyfraith breifat

Cynorthwyo teuluoedd i ddod i gytundeb drostynt eu hunain

57. Rydym yn credu'n gryf, yn y rhan fwyaf o'r amgylchiadau, mai mamau a thadau, yn gweithio gyda'i gilydd, yw'r bobl orau i wneud trefniadau ynglŷn â bywydau eu plant ar ôl i rieni wahanu. Efallai fod perthynas yr oedolion fel cwpl drosodd, ond mae'r mamau a'r tadau'n dal i fod â pherthynas fel rhieni â'u plant. Credwn fod plant yn elwa fel arfer o barhau i ymwneud â'r ddau riant ac o drefniadau a all ymateb i newid yn eu hanghenion dros gyfnod. O ganlyniad, rydym yn awyddus i rieni gael eu cefnogi i ddatblygu trefniadau hyblyg a chydweithredol, sy'n canolbwyntio'n glir ar anghenion eu plant.

58. Mae dwy ran bendant i'n hagwedd at ddiwygio yng nghyswllt cyfraith breifat:

    y camau y byddwn yn eu cyflwyno er mwyn ceisio cefnogi teuluoedd fel nad oes angen iddynt ddod â'u problemau i'r llys yn y lle cyntaf;

    ac, mewn lleiafrif o'r achosion, lle mae'r problemau yn dod i'r llys, camau er mwyn sicrhau y gall hyn ddigwydd yn gyflym ac yn glir. Mae sicrhau bod rhieni'n gallu cyflwyno eu hachos yn bwysig, wrth gwrs, ond rhaid i fuddiannau plant fod yn bwysicach na dim.

Beth y byddwn yn ei wneud

59. Mae'r egwyddor o ddal i rannu cyfrifoldeb rhieni ar ôl gwahanu'n ategu ein hagwedd at gyfraith breifat. Mae'r Llywodraeth yn credu bod plant yn elwa os yw'r ddau riant yn ymwneud cymaint ag sy'n bosibl ym magwraeth eu plentyn, oni bai fod pryder ynghylch diogelwch neu les.

60. Mae hwn yn fater sensitif gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn. Penderfynodd yr Adolygiad argymell dim newid yn y gyfraith i sefydlu rhagdybiaeth o rannu cyfrifoldeb rhieni, neu i gynnwys datganiad yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â'r angen i blentyn ddal i gael perthynas ystyrlon â'r rhiant nad yw'n byw gydag ef. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn pryderu o hyd am gael cydnabyddiaeth briodol gan y llysoedd i rôl y ddau riant.

61. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid cael datganiad deddfwriaethol am ba mor bwysig yw sicrhau bod plant yn cael perthynas barhaus â'r ddau riant ar ôl i deulu wahanu, os yw hynny er budd gorau i'r plentyn ac yn ddiogel. Rydym wedi sefydlu gweithgor o Weinidogion i ddatblygu cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol, a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth eang ac ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

62. Mae'r Llywodraeth yn ystyriol o'r gwersi mae'n rhaid eu dysgu o brofiad Awstralia o ddeddfu yn y maes hwn, y gwnaeth yr Adolygiad eu nodi a'u hannog i fod yn ofalus. Felly byddwn yn ystyried yn ofalus iawn sut y gellir llunio'r ddeddfwriaeth er mwyn osgoi'r rhwystrau a welwyd yn Awstralia, yn enwedig nad yw perthynas

ystyrlon yn ymwneud â rhannu amser yn gyfartal, ond ag ansawdd y rhianta mae'r plentyn yn ei gael.

63. Bydd unrhyw newidiadau yn ategu'r egwyddor yn Neddf Plant 1989 mai anghenion lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf mewn unrhyw benderfyniadau a wneir gan y llys; dyma'r 'safon aur' o hyd. Bydd y newidiadau'n nodi'n glir y dylai'r llys ystyried perthynas barhaus â'r ddau riant fel rhywbeth a fydd yn cyfrannu at les y plentyn yn y rhan fwyaf o achosion – a dylid ystyried y cwestiwn o'r safbwynt hwn, sef beth sydd orau i'r plentyn – yn hytrach na beth sydd 'orau' i'r rhieni.

64. Nod unrhyw ragdybiaeth yn ymwneud â rhannu cyfrifoldebau magu plant fydd gwella'r siawns o gael cytundeb rhwng rhieni sydd er budd eu plentyn, heb orfod troi at achos gwrthwynebus, niweidiol a hirfaith yn aml, yn y llysoedd, sy'n amlwg o ddim budd i'r plentyn. Rydym wedi defnyddio'r un dull, gan ganolbwyntio'n bennaf ar anghenion y plentyn yng nghyswllt cyswllt a chynhaliaeth (gweler paragraff 75).

Cefnogaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn bwysig bod rhieni'n cael gwybodaeth a chefnogaeth er mwyn iddynt allu dysgu a gofalu am eu plant yn dda. Mae llawer o wybodaeth ddigidol ar gael yn barod i rieni. Mae'r Llywodraeth yn edrych ar ffyrdd newydd o wneud cyngor a gwybodaeth ddigidol i rieni'n fwy hygyrch ar adegau rheolaidd yn ystod beichiogrwydd a phlentyndod cynnar.

Ar hyn o bryd mae gwefan NHS Choices yn cefnogi rhieni â gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd drwy dudalennau rhyngweithiol **Pregnancy Care Planner** (yn seiliedig ar 'The Pregnancy Book') a'r canllaw **Birth to Five** (yn seiliedig ar y llyfr 'Birth to Five') ac ystod o fideos ar faterion yn ymwneud â beichiogrwydd, babanod a phlant://www.nhs.uk.

Dod o hyd i atebion heb fynd i'r llys

65. I lawer o deuluoedd, nid achos llys yw'r ffordd orau o ddatrys anghydfod ynglŷn â dyfodol eu plant. Oni bai fod pryder difrifol ynglŷn â lles plant, mae'n bosibl y byddai'n well i rieni sy'n gwahanu ddod i gytundeb drostynt eu hunain ynglŷn â gofal eu plant, a'u materion ariannol heb fynd i'r llys. Mae'r cytundebau hyn yn tueddu i bara'n hwy, a gallent achosi llai o wrthdaro rhwng rhieni, na chytundebau sy'n cael eu gorfodi gan y llys. Dim ond ar un adeg benodol, ar sail y ffeithiau a roddwyd gerbron, y gall llysoedd wneud penderfyniad, ond mae angen i famau a thadau ddod o hyd i ffordd o weithio gyda'i gilydd er mwyn eu plant drwy gydol eu plentyndod. Rhaid inni felly ddarparu gwahanol ffyrdd o gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu er mwyn iddynt allu datblygu eu hatebion eu hunain. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad yr Adolygiad, *"Ein nod yw proses gefnogol, glir ar gyfer achosion cyfraith breifat sy'n hybu cyfrifoldeb rhiant a rennir, yn darparu gwybodaeth, yn rheoli disgwyliadau ac yn helpu pobl i ddeall y costau y maent yn eu hwynebu ar bob cam. Dylai'r pwyslais drwyddo draw fod ar alluogi pobl i ddatrys eu hanghydfodau'n ddiogel y tu allan i'r llys lle bynnag y bo modd"*[24].

24 Family Justice Review Final Report, 4.69, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

66. Byddwn felly, cyn gynted ag y bo modd, yn sefydlu gwell proses o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys, yn seiliedig ar lwybr rhesymegol y gall teuluoedd ei ddilyn yn rhwydd.

67. Y man cychwyn naturiol i hyn yw sicrhau bod rhieni'n deall beth a ddisgwylir ganddynt. Rydym yn cytuno bod angen gwybodaeth syml, glir a dealladwy ynglŷn â dyletswyddau a chyfrifoldebau rhieni i'w plant a goblygiadau gwahanu. Mae ar rieni hefyd angen dolenni cyswllt sy'n arwain at ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth ehangach. Byddwn yn cynnig cefnogaeth ar-lein i rieni sy'n gwahanu. Bydd pob rhiant mae angen cefnogaeth a chymorth arnynt yn dechrau'r broses ffurfiol o wahanu o'r un man cychwyn hwn.

Cymorth i rieni sy'n gwahanu a rhieni sydd wedi gwahanu

Gall rhieni'n gwahanu fod yn brofiad anodd i'r teulu cyfan. Ar yr adeg hon, efallai y bydd ar deuluoedd angen cefnogaeth ar ystod eang o faterion o dai a budd-daliadau; i wneud trefniadau ynglŷn â gofalu am eu plant a chynnal plant; i gefnogaeth emosiynol ddyfnach.

Mae amrywiaeth eang o wybodaeth a chefnogaeth ar gael ar hyn o bryd, ond yn aml iawn nid yw rhieni'n gwybod i ble i fynd nac ym mha wasanaeth y gallant ymddiried.

Er mwyn helpu rhieni i ddod o hyd i'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n arwain gwaith ar draws y llywodraeth i gomisiynu gwasanaeth newydd teleffoni ac ar y we a fydd yn darparu gwybodaeth annibynnol, ddibynadwy i rieni sy'n gwahanu a rhieni sydd wedi gwahanu, a bydd yn eu cyfeirio at wasanaethau sy'n berthnasol i'w hangen.

Mae'r gwasanaeth ar y we a'r llinell gymorth yn cael eu creu i fod yn hyblyg ac yn esblygol, fel bod modd ychwanegu gwasanaethau newydd gydag amser wrth iddynt gael eu datblygu a'u gwerthuso.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac elusennau i helpu i ddylunio gwasanaethau a dulliau o ddarparu gwybodaeth y gall rhieni, a allai fod ag anawsterau dysgu neu anawsterau eraill eu hunain, sy'n ei gwneud yn anos iddynt gymathu a chymhwyso gwybodaeth a chyngor, gael mynediad atynt a'u deall.

Bydd y gwasanaeth ar y we newydd yn cael ei gomisiynu yn 2012, a bydd gwasanaeth teleffoni ar gael yn dilyn hynny yn 2013.

68. Rydym yn dal i gefnogi datblygu Cytundeb Rhianta i helpu rhieni i gytuno ar y trefniadau ymarferol ar gyfer eu plant; bydd hyn yn ganolog i'r broses o ddatrys anghydfodau. Bydd y ganolfan wybodaeth yn esblygu er mwyn cefnogi mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gall teuluoedd wneud hyn yn effeithiol. Gall Cytundebau Rhianta hefyd roi manylion am y ffyrdd y gall plant gadw perthynas ag aelodau eraill o'r teulu, yn enwedig teidiau a neiniau.

69. Lle bo ar rai cyplau sy'n gwahanu ac ymgeiswyr eraill i achosion teulu angen mwy o help, byddwn yn adeiladu ar y Protocol Cyn Cais sydd wedi'i sefydlu'n barod drwy gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau eu bod yn mynd i Gyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu (MIAM) i benderfynu a fyddai cyfryngu'n addas iddynt. Efallai na fydd cyfryngu'n briodol mewn rhai amgylchiadau wrth gwrs, a bydd angen mesurau diogelu ac eithriadau clir.

70. Gall fod yn anodd i rieni wybod sut mae eu gweithredoedd yn ystod proses wahanu neu ar ôl hynny yn effeithio ar eu plant, yn enwedig pan fydd gwrthdaro ynghylch trefniadau gofal y plant. Byddwn yn sicrhau bod rhieni sydd wedi gwahanu yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, megis rhaglenni rhianta arbenigol, sy'n eu helpu i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â chyswllt â phlentyn a phenderfyniadau pwysig eraill. Mae'r rhaglenni rhianta yn annog rhieni sydd wedi gwahanu i weithio gyda'i gilydd er mwyn iddynt ddiwallu anghenion eu plant yn y ffordd orau bosibl. Gallai hyn gynnwys llunio Cytundeb Rhianta sy'n realistig, yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn bodloni'r ddau riant.

71. Mae'r rhaglenni rhianta arbenigol presennol yn cael eu cryfhau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion teuluoedd sydd wedi gwahanu ac sydd mewn anghydfod ac maent yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant.

72. Rydym yn gwbl gefnogol i farn y Panel y *"Dylai'r holl gyfryngu lle mae anghydfodau yn ymwneud â phlant yn cael eu trafod ganolbwyntio ar y plentyn – hynny yw, dylai lles plant fod yn ganolog iddo*[25]*"*. Er mwyn dangos ein hymrwymiad i'r dull hwn o weithredu rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd £10 miliwn yn rhagor o arian cyhoeddus ar gael ar gyfer cyfryngu, ac y bydd y cyfanswm yn cynyddu i £25 miliwn y flwyddyn. Mae cydweithio â'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o hyn. Lle mae cyfryngu'n briodol mae hefyd yn gyfle da i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ehangach i rieni. I lawer o gyplau, bydd y lefel hon o gefnogaeth yn ddigon i'w helpu i gytuno ar drefniadau ar gyfer dyfodol eu plant.

73. Mewn achosion lle mae'n bosibl bod problemau yn ymwneud â thrais yn y cartref neu ddiogelu, bydd materion yn mynd i'r llys yn gynt. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ni fydd rhieni'n gallu dechrau'r prosesau yn y llys nes bydd y camau a amlinellwyd uchod wedi cael eu cymryd.

25 Family Justice Review Final Report, 4.105, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

Pwysigrwydd teidiau a neiniau

Mae teidiau a neiniau yn aml yn chwarae rhan hollbwysig ym mywydau eu hwyrion. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r berthynas rhwng rhieni'n newid, o ganlyniad i wahanu neu ysgaru neu ailbriodi. Gallant fod yn ffynhonnell sefydlogrwydd bwysig iawn ar adegau anodd. Yn ystod yr adegau hyn o newid, gall teidiau a neiniau gynnig cefnogaeth, dilyniant a sicrwydd. Gall teidiau a neiniau hefyd ymgymryd â'r rôl o helpu i hwyluso cyswllt â rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn, er enghraifft drwy alluogi cyswllt i ddigwydd yn eu tŷ hwy neu drwy fod yn bresennol pan mae'r cyswllt yn digwydd.

Mae rhai wedi galw am ddileu'r angen i deidiau a neiniau ofyn am ganiatâd i wneud cais i'r llys a thrwy hynny eu rhoi yn yr un sefyllfa â rhieni plentyn. Yn eu hadroddiad terfynol dywedodd y Panel *"Nid ydym yn credu bod llysoedd yn gwrthod caniatâd heb reswm digonol na bod gwneud cais am ganiatâd yn broses araf neu gostus i deidiau a neiniau. Yn hytrach, mae'r angen i wneud cais am ganiatâd yn atal ceisiadau anobeithiol neu flinderus nad ydynt er budd y plentyn"*.[26]

Rydym yn cytuno â'r Panel y dylai teidiau a neiniau ddal i ofyn am ganiatâd cyn gwneud cais i'r llys am gyswllt. Rydym yn awyddus i annog ac i gefnogi teidiau a neiniau, yn yr un modd â rhieni, i ddatrys eu gwahaniaethau y tu allan i broses y llys.

Ond mae teidiau a neiniau eu hunain weithiau'n colli cysylltiad â'u hwyrion ar ôl i rieni wahanu. Rydym yn bendant y dylid rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd perthynas plant ag aelodau eraill o'r teulu a byddwn yn sicrhau bod y mater hwn yn cael ei adlewyrchu'n llwyr yn y broses o wneud Cytundebau Rhianta ac mewn dosbarthiadau rhianta pwrpasol ar gyfer rhieni sy'n gwahanu.

Lle mae angen i achosion fynd i'r llys

74. Hyd yn oed â chymaint mwy o gefnogaeth ar gael, mae'n anorfod y bydd rhai achosion lle nad yw teuluoedd yn gallu cytuno a lle mae angen iddynt fynd i'r llys. Mae hyn yn cynnwys y teuluoedd hynny sydd wedi'u heithrio o'r broses uchod, oherwydd bod rhywun yn cael ei gam-drin efallai, neu oherwydd anghydbwysedd grym – y llys yw'r lle iawn i'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod modd amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Ond rhaid i'r llysoedd allu ymdrin â'r achosion hyn yn llawer cyflymach ac yn fwy effeithlon nag y maent yn gwneud ar hyn o bryd.

75. Er mwyn symleiddio'r broses a'i gwneud yn fwy tryloyw byddwn yn sefydlu un Llys Teulu ar gyfer Cymru a Lloegr, ag un pwynt mynediad, yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad. Bydd achosion yn y Llys Teulu'n cael eu dyrannu i'r lefel briodol yn y farnwriaeth a byddwn yn ystyried posibilrwydd darparu ar gyfer achosion i ddilyn un o nifer o 'draciau' gan ddibynnu pa mor gymhleth yw'r achos neu faint o frys sydd arno, er enghraifft.

76. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywydd yr Adran Deulu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) ac asiantaethau eraill er mwyn newid prosesau yn y llys fel eu bod yn haws i'w deall ac yn cael eu cynnal yn gynt. Rydym yn cytuno bod y termau "cyswllt" a "phreswylio" wedi cael eu cysylltu'n gwbl

26 Family Justice Review Final Report, 4.46, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

gamarweiniol â'r syniad o golli ac ennill. Nid yw'r syniad hwn yn hybu rhianta ar y cyd na phwyslais ar drefniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

77. Drwy gyflwyno gorchymyn newydd ar gyfer trefniadau plentyn, bydd y trefniadau ymarferol sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu magu yn fwy seiliedig ar anghenion plant. Yn yr un modd, ni fydd cysylltiad rhwng cyswllt a chynhaliaeth wrth orfodi gorchmynion llys. Nid yw'n iawn bod y rhain yn cael eu gweld gan rieni fel nwyddau i'w cyfnewid. Mae gan blant hawl i gael cefnogaeth ariannol gan y ddau riant ac i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, lle bo hynny'n ddiogel. Mae'n anodd gweld sut y mae atal unrhyw un o'r rhain yn diwallu anghenion lles y plentyn.

78. Dylai'r math newydd o orchymyn helpu rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eu plant. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith o wneud y gorchymyn gael ei gefnogi gan fecanweithiau cyflym ac effeithiol er mwyn sicrhau bod unrhyw anawsterau a allai godi'n cael eu datrys yn fuan. Ar hyn o bryd, mae oedi cyn dod ag achosion yn ôl i'r llys ar ôl i orchmynion cyswllt gael eu torri, a diffyg camau gorfodi effeithiol, wedi cael effaith ddifrifol ar broses y llys gan danseilio ei hygrededd.

79. Yn ôl yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu, lle mae gorchymyn wedi'i dorri cyn pen 12 mis dylai'r achos fynd yn ôl i'r llys o fewn nifer penodedig o ddyddiau, gerbron yr un barnwr ag a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol. Dyma'r allwedd yn ein barn ni er mwyn torri'r cylch o wrthdaro rhwng rhieni a sefydlu neu ailddechrau cyswllt i'r plentyn yn ddi-oed. Byddai'r pwerau gorfodi presennol (sy'n cynnwys dirwy, carchar neu waith di-dâl) ar gael o hyd i'r barnwr yn y cyfnod cynnar hwn ac, mewn amgylchiadau eithriadol, gallai orchymyn bod y plentyn yn byw gyda'r rhiant arall lle byddai hynny'n diwallu anghenion lles y plentyn yn well.

80. Bwriadwn fynd yn bellach na hyn, fodd bynnag. Credwn y dylid rhoi rhybudd llawer cryfach ar ddechrau'r achos ynglŷn â'r canlyniadau posibl os bydd y naill riant neu'r llall yn torri gorchymyn trefniadau plentyn. Rydym hefyd yn archwilio dewisiadau ar gyfer cosbau gorfodi ehangach er mwyn ei gwneud yn haws i'r llysoedd gymryd camau gorfodi. Y nod, fodd bynnag, fyddai tynnu sylw at y cosbau posibl hyn er mwyn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau cyswllt i'r plentyn ym marn y Llywodraeth ac, yn y pen draw, ceisio sicrhau nad yw gorfodaeth yn dod yn fater canolog.

Ysgaru

81. O ran y system ehangach, gwnaeth yr Adolygiad nifer o argymhellion hefyd er mwyn symleiddio a rhesymoli'r broses ysgaru. Yn ôl yr Adolygiad *"Mae'n bosibl y gellid cynyddu'r defnydd o weinyddwyr yn y llysoedd er mwyn ysgafnhau baich barnwyr a chreu proses symlach mewn 98% o'r achosion, sef achosion lle nad oes anghydfod ynghylch yr ysgariad. Mae'r broses a ddefnyddir ar hyn o bryd yn golygu bod barnwyr yn treulio amser yn gwneud dim mwy, i bob pwrpas, na gwneud yn siŵr bod ffurflenni wedi cael eu llenwi'n iawn, a bod yr enwau a'r dyddiadau'n gywir. Mae'r broses a ddefnyddir ar hyn o bryd yn golygu bod barnwyr yn treulio amser yn gwneud dim mwy, i bob pwrpas, na gwneud yn siŵr bod ffurflenni wedi cael eu llenwi'n iawn, a bod yr enwau a'r dyddiadau'n gywir. Mae hyn yn wastraff. Ni fyddai ei newid yn*

gwneud unrhyw wahaniaeth o ran pa mor hawdd neu anodd yw cael ysgariad. Y cyfan y byddai'n ei wneud fyddai rhyddhau mwy o amser barnwyr ar gyfer pethau pwysicach[27]*".*

82. Rydym yn cytuno. Ni fydd unrhyw newid i'r gyfraith sylwedd sy'n ymwneud ag ysgaru, ar wahân i ddileu'r angen i'r llys ystyried trefniadau ar gyfer plant mewn achosion ysgariad. Nid gwneud ysgariad yn haws i gyplau yw pwrpas hyn ond symleiddio prosesau i'r llysoedd. Gan nad yw'r rhan fwyaf o'r ceisiadau am ysgariad yn cael eu herio, dylai pobl a chanddynt gymwysterau priodol ymdrin â hwy'n weinyddol yn y llysoedd, yn hytrach na barnwyr. Bydd hyn yn galluogi barnwyr i dreulio mwy o'u hamser yn ymdrin ag achosion anodd. Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn. Gellir cael rhagor o fanylion am y newid hwn yn Atodiad 1 (argymhelliad 130).

27 Family Justice Review Final Report, 4.166, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

G: Datblygu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu a'r system arweiniad

Drwy ein diwygiadau arfaethedig ein nod yw creu system gydlynol ac effeithiol sy'n defnyddio'r arbenigedd y mae pob parti'n ei gyfrannu iddi ac sy'n cyflawni'n effeithiol er budd defnyddwyr.

83. Mae llawer o adolygiadau o'r system Cyfiawnder Teulu wedi'u cynnal yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, ond mae llawer o'r un problemau yma o hyd, ac nid oes yr un adolygiad wedi gallu darparu ateb cynaliadwy. Mewn gwirionedd, dadleuodd y Panel nad yw'r system Cyfiawnder Teulu yn system o gwbl ac y dylid diwygio'r fframwaith cyffredinol y mae cyfraith breifat a chyhoeddus yn rhan ohono.

84. Rydym yn cytuno â'r Adolygiad: *"Y nod canolog priodol yw rhoi cymorth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n dod i gysylltiad â'r system Cyfiawnder Teulu, gan roi pwyslais penodol ar leihau oedi"*[28]. Byddwn yn adeiladu system sy'n canolbwyntio ar blant – ac mae hyn yn golygu adeiladu partneriaethau cryfach fyth rhwng y llywodraeth, gwasanaethau plant awdurdodau lleol, y farnwriaeth, y gwasanaeth llysoedd a'r sector gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â gwasanaethau gwaith cymdeithasol, addysg, yr heddlu ac iechyd. Mae hyn yn galw am newid diwylliant a chanolbwyntio mwy ar arweinyddiaeth ar bob lefel. O ystyried yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, bydd yn bwysicach fyth bod pawb sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a chyfiawnder teuluol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwneud y gorau o'u hadnoddau.

85. Rhaid i'r system hon fod yn symlach, yn fwy cydlynol ac yn cael ei deall yn well gan bawb sy'n ei defnyddio, system sy'n gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon gan ei bod yn cael ei harwain yn dda ac yn cael ei rheoli'n dda, ar lefel genedlaethol a lleol, â'r cyfuniad priodol o sgiliau, ac sydd â'r gallu i ddysgu a gwella.

Beth y byddwn yn ei wneud

86. Rydym wedi ymrwymo i greu system fwy cydlynol â dilyniant, arbenigaeth, a rheolaeth a pherfformiad o safon uchel yn ganolog iddi. Gwyddom fod gweithwyr proffesiynol yn rhannu'r uchelgais hon i wneud i bethau weithio'n well.

87. Byddwn yn gwella ansawdd, cwmpas a chydlyniad ymchwil, data a gwybodaeth rheoli yn y system Cyfiawnder Teulu, i gefnogi gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teulu, sy'n cael ei amlinellu isod. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cyfres o fesuryddion perfformiad ar gyfer y system, yn ogystal â gwella'r sylfaen dystiolaeth ymchwil.

28 Family Justice Review Final Report, 14, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan weithio mewn cysylltiad agos â'r Adran Addysg, GLITEM, Cafcass (a Cafcass Cymru) a rhanddeiliaid ehangach. Yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar Weithrediad y Llysoedd Teulu cyfeiriasom at waith a oedd wedi'i wneud yn barod er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'w gweld yn *Atodiad 2*.

88. Cydnabu'r Adolygiad nad yw newid sylweddol ym mheirianwaith y Llywodraeth yn syml o bell ffordd pan ddywedodd, *"rydym yn derbyn bod newid strwythurol yn gallu bod yn gostus a bod posibilrwydd iddo fethu â chyflawni'r manteision disgwyliedig*[29]*"*. O ganlyniad, argymhellodd y dylai'r Llywodraeth sefydlu Bwrdd dros dro i ddechrau'r gwaith y mae angen ei wneud ar unwaith i ddiwygio'r system. Byddwn yn gwneud hyn erbyn Ebrill 2012 ac yn cyhoeddi cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl iddo gael ei sefydlu.

89. Bydd y Bwrdd hwn yn darparu'r arweiniad a'r cyfarwyddyd sydd ei angen er mwyn gweithredu'n cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer newid. Bydd grwpiau lleol newydd yn bwydo i mewn iddo, ac yn cymryd lle'r Grwpiau Gwella Perfformiad Lleol a'r Cynghorau Cyfiawnder Teulu Lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan symleiddio strwythurau lleol. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio'n bennaf ar geisio gwella perfformiad ar draws y system a sicrhau bod gwahanol rannau'r system yn cydweithio mor effeithiol ag sy'n bosibl er mwyn galluogi hyn. Yn fwyaf arbennig, bydd y Bwrdd, a fydd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r prif asiantaethau darparu, yn canolbwyntio ar leihau oedi ar draws y system, gan ei helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r terfyn amser statudol o chwe mis mewn achosion gofal.

90. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bwrdd yn defnyddio data perfformiad llysoedd, a fydd yn cael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder o Ionawr 2012 ymlaen, i nodi ar beth y mae angen i'r system ganolbwyntio'i gwaith a'i hadnoddau, ac i gydlynu'r gwaith, a hefyd i nodi arferion gorau a fydd yn ei helpu i'w rhannu'n ehangach. Bydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiad ar ei waith yn flynyddol a bydd yn gweithredu yn lleol hefyd er mwyn dod ag asiantaethau a rhanddeiliaid lleol at ei gilydd i oruchwylio gweithrediad Cyfiawnder Teulu yn eu hardaloedd. Bydd canolbwynt a chylch gorchwyl y Bwrdd yn cael eu hailystyried ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn ag unrhyw ddiwygio strwythurol pellach, ac ar ôl cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu'r terfyn amser o 6 mis.

91. I ategu'r sylw manwl hwn i berfformiad, rydym yn cynnig bod atebolrwydd am ddarparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol y llysoedd yn Lloegr yn cael ei drosglwyddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn annog gwell cysoni strategol rhwng y prif asiantaethau. Byddwn yn dechrau cynllunio'r newid hwn ar unwaith, ond ni fydd y trosglwyddo'n digwydd am dipyn.

92. Â'r cyfeiriad newydd hwn, a mynd yn ôl i ganolbwyntio ar y cyd ar y plentyn, gellir adfywio a gwella'r system er budd pawb sydd â chysylltiad â hi.

29 Family Justice Review Final Report, 2.41, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

Beth mae hyn yn ei olygu i Cafcass a Cafcass Cymru

Mae Cafcass wedi gwella'i berfformiad yn sylweddol, yn fwyaf arbennig o ganlyniad i gynnydd sylweddol a pharhaus yn y galw am geisiadau gofal dros y tair blynedd diwethaf.

Mae Cafcass wedi diwygio llawer o'i arferion gweithio er mwyn amsugno llawer iawn mwy o achosion, ac mae wedi gweld cynnydd o 15% mewn cynhyrchiant er Ebrill 2010. Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn awr.

I sefydlu'r newidiadau hyn ac i wneud Cafcass yn rhan fwy cyflawn o'r system ehangach o gyfiawnder teuluol, byddwn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gefnogi Cafcass o'r Adran Addysg i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd hyn yn dod â swyddogaethau gwaith cymdeithasol y llys yn agosach at broses y llysoedd, at wasanaethau cyfryngu ac at ddatrys problem y tu allan i'r llys a bydd yn rhoi llais cryf i Cafcass yn y system Cyfiawnder Teulu ehangach er mwyn hybu llais plant yn y llysoedd.

Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru fydd â'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu cyngor gwaith cymdeithasol llysoedd o hyd, drwy Cafcass Cymru. Fel sy'n digwydd gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru, bydd Cafcass Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb am gyfrannu at welliannau fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r system Cyfiawnder Teulu yn ei chyfanrwydd.

H: Y farnwriaeth a'r gweithlu ehangach

Drwy ein diwygiadau arfaethedig byddwn yn datblygu gweithlu mwy hyfedr a galluog.

93. Mae Cyfiawnder Teulu yn dod ag ystod eang o arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd. Mae angen i'r rhain allu cydweithio'n agos, deall cyfraniad unigryw'r naill a'r llall, a theimlo'n hyderus y gall y bobl y maent yn gweithio gyda hwy roi iddynt hwy, yn eu tro, y gwasanaeth y mae arnynt ei angen er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol. Yn ôl yr Adolygiad *"Mae sgiliau ac agweddau pobl cyn bwysiced o leiaf â deddfwriaeth a phrosesau wrth hybu diwygiadau yn y system Cyfiawnder Teulu"*[30].

94. Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sydd â'u rolau'n ymwneud â llysoedd teulu er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r prosesau a rolau ei gilydd, a'r hyder i gyflawni gwaith o'r safon uchaf.

95. Mae ein hagwedd at y gweithlu, wrth gwrs, yn gysylltiedig â'r gwaith ehangach a eglurwyd uchod, yn enwedig o ran cael gafael ar y mathau priodol o wybodaeth ac ymchwil, a strwythurau newydd ar gyfer adrodd am berfformiad.

Beth y byddwn yn ei wneud

96. Yn ôl yr Adolygiad, er mwyn mynd i'r afael ag oedi, a gweithredu'r rhaglen ddiwygio hon yn llwyddiannus, bydd angen newid mawr mewn diwylliant ac yn arferion pawb sy'n gweithio yn y system Cyfiawnder Teulu. Yn fwyaf arbennig, pwysleisiwyd bod arweinyddiaeth y farnwriaeth yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwelliannau wrth reoli achosion a gwneud proses y llys yn fwy effeithlon. Yn ôl yr Adolygiad terfynol *"Mae'r hierarchaeth farnwrol yn troi'n gynyddol, ac yn briodol hefyd, yn hierarchaeth reoli"*[31].

97. Mae argymhellion yr Adolygiad yn adeiladu ar rywfaint o'r gwaith sydd wedi'i ddechrau'n barod gan Lywydd yr Adran Deulu er mwyn gwella rheolaeth achosion ac ar y defnydd o arbenigwyr er mwyn osgoi oedi diangen wrth ddatrys achosion cyfraith gyhoeddus. Mae'r farnwriaeth eisoes wedi dechrau ymateb i argymhellion eraill, gan gynnwys diffinio rôl barnwyr arweiniol teuluol yn gliriach a'r rhaglen waith ehangach sy'n gysylltiedig â gweithredu'r argymhellion sy'n deillio o Adroddiad y Panel Cynghori ar Amrywiaeth Barnwrol.

98. Rydym yn nodi y bydd y gwaith hwn yn parhau yn dilyn penodi Mr Ustus Ryder, barnwr Uchel Lys, i swydd newydd 'Barnwr â chyfrifoldeb am foderneiddio Cyfiawnder Teulu'. Mae'r penodiad yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad barnwrol er mwyn sicrhau bod y diwygiadau'n llwyddo i arwain at newid sylfaenol a chynaliadwy. Er nad yw ei gylch gorchwyl wedi'i gyfyngu i newidiadau yn

30 Family Justice Review Final Report, 41, http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-final-report.pdf

31 Family Justice Review Final Report, 48, dolen gyswllt fel uchod

ymwneud â'r gweithlu, bydd sefydlu'r Awdurdod Materion Teuluol yn sicrhau bod GLlTEM a'r farnwriaeth yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sbarduno perfformiad a gwella gweithrediad y llysoedd teulu.

99. O ran hyfforddiant barnwrol, mae'r Coleg Barnwrol eisoes yn darparu hyfforddiant, yn ei seminarau sefydlu a pharhau, ar y meysydd hynny sy'n cael ei argymell ar gyfer barnwyr, ynadon a chynghorwyr cyfreithiol (e.e. rheoli achosion, datblygiad plant a defnyddio tystiolaeth arbenigwyr) a rhoddir ystyriaeth bellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gryfhau'r elfennau sy'n bodoli'n barod.

Defnyddio ystod o leoliadau

Mae amgylchedd y llys yn gallu bod yn frawychus a gall godi ofn ar blant a theuluoedd. Nid yw llawer ohonynt wedi cael eu cynllunio'n ymarferol i ddarparu ar gyfer plant ac ychydig sy'n gwneud defnydd effeithiol o dechnolegau newydd fel cynadleddau fideo mewn achosion cyfraith teulu.

Rydym yn cytuno ag argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu y dylai llysoedd gael eu haddasu i fod mor ystyriol ag sy'n bosibl o deuluoedd.

Bydd y materion hyn yn rhan ganolog o'n hystyriaethau wrth i GLlTEM barhau i ddiwygio a moderneiddio'i adeiladau, a datblygu'r arferion gorau er mwyn darparu ar gyfer teuluoedd ac achosion teulu.

100. Wrth gwrs, mae gan weithwyr proffesiynol eraill ran bwysig i'w chwarae, ac mae llawer o'r hyn a ddywedwyd gan yr Adolygiad ynglŷn â gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r gwaith rydym yn ei wneud yn barod o ganlyniad i Adolygiad Munro, y Rhaglen Diwygio Gwaith Cymdeithasol a'r Rhaglen *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*[32]. Mae Cyfiawnder Teulu yn faes arbenigol ac annibynnol sy'n galw am wybodaeth, sgiliau a hyfforddiant penodol er mwyn i weithwyr proffesiynol deimlo'n hyderus a chael cefnogaeth yn y gwaith anodd y maent yn ei wneud. O ganlyniad, rydym yn trafod gyda'r Coleg Gwaith Cymdeithasol, y Bwrdd Diwygio Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru sut y gellir cryfhau hyfforddiant gwaith cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o broses y llys, a'u rôl ynddo. Byddwn hefyd yn defnyddio'n canllawiau yng Nghymru a Lloegr ar rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant er mwyn nodi'n gliriach beth yw eu rôl yng nghyswllt gofal cymdeithasol a'r llysoedd..

101. Mae angen i'r farnwriaeth a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y system allu cael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth o safon uchel am berfformiad y system, defnyddwyr y system, a beth sy'n gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau, i'w helpu i gyflawni'n fwy effeithiol. Bydd y strwythurau newydd arfaethedig ar gyfer adrodd am berfformiad, ochr yn ochr â'r gwaith ar ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ymchwil, yn hwyluso hyn.

32 http://www.education.gov.uk/munroreview/ http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=en

Darlun o ddiwygiadau ehangach – Adolygiad Munro

Ers cyhoeddi ein hymateb i argymhellion yr Athro Munro yng Ngorffennaf 2011[33], mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â diogelu plant er mwyn sicrhau diwygiadau parhaol.

Gyda'n gilydd, rydym yn awyddus i adeiladu system amddiffyn plant sy'n canolbwyntio'n glir iawn ar brofiad y plentyn neu ar daith y person ifanc o fod angen help i gael help.

Mae angen newid sylfaenol yn y ffordd mae'r system yn gweithio, er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd a sut mae rhoi'r cymorth gorau posibl iddynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bartneriaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol gan sicrhau bod anghenion y plentyn yn ganolog i'r system. Dim ond drwy weithio'n effeithiol rhwng asiantaethau mae modd cyflawni hyn.

Rydym wedi cysylltu â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, gwasanaethau iechyd, yr heddlu ac addysg er mwyn ystyried beth yw'r ffordd orau o wireddu gweledigaeth yr Athro Munro o gynnig tryloyw, wedi'i gyd-drefnu, o gymorth cynnar i blant a theuluoedd. Rydym wedi dod i'r casgliad bod digon o ddeddfwriaeth eisoes ar gyfer gwasanaethau lleol, ac y byddai rhagor o ddeddfwriaeth yn golygu mwy o fiwrocratiaeth pan y dylid canolbwyntio ar ddarparu cymorth cynnar a gwella canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed. Felly rydym yn dal i weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn glir ynglŷn â'r ddeddfwriaeth bresennol, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cael cymorth cynnar a nodi meysydd er mwyn hybu cynnydd.

Rydym yn ceisio lleihau biwrocratiaeth a'i gwneud hi'n haws i weithwyr rheng flaen ddefnyddio'u barn broffesiynol drwy ddiwygiadau i Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant a'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol cyn bo hir a byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig erbyn Gorffennaf 2012.

Rydym yn gweithio gydag wyth awdurdod lleol er mwyn profi dulliau mwy hyblyg o asesu. Mae'r canfyddiadau hyd yn hyn yn galonogol ac yn awgrymu y gall dileu'r gwahaniaeth rhwng yr asesiad cychwynnol a'r asesiad craidd a graddfeydd amser wedi'u rhagnodi'n genedlaethol ar gyfer asesu gael yr effaith gadarnhaol ar ymarfer a ragwelwyd gan yr Athro Munro. Rydym yn parhau â'r gwaith treialu hwn er mwyn edrych yn fanylach ar effaith y newidiadau hyn, yn enwedig yr effaith ar blant a phobl ifanc, a byddwn yn ymgynghori ar hyblygrwydd fel rhan o'r ymgynghoriad *Working Together*.

Mae angen i'r system amddiffyn plant gael ei hategu gan ddiwygiadau i'r gweithlu, yn enwedig yng nghyswllt gwaith cymdeithasol lle rydym wedi ymrwymo i adeiladu proffesiwn cryf, hyderus, sy'n darparu cymorth o safon uchel i blant a theuluoedd. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid fel y Bwrdd Diwygio Gwaith Cymdeithasol a'r Coleg Gwaith Cymdeithasol er mwyn cyflwyno'r gwelliannau hyn.

33 http://www.education.gov.uk/munroreview/downloads/GovernmentResponsetoMunro.pdf
34 http://www.education.gov.uk/munroreview/

Yr haf diwethaf, cynhaliodd Ofsted ymgynghoriad ar drefniadau arolygu amddiffyn plant sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn mewn awdurdodau lleol. Bydd y trefniadau newydd hyn yn dechrau ym Mai 2012.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu ymateb y Llywodraeth i adolygiad yr Athro Munro ar dudalennau penodol gwefan yr Adran[34].

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei diwygiadau i ddiogelu ac i amddiffyn plant ymhellach a fydd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r camau y bydd yn eu cymryd i gryfhau cytundebau cydweithredol a phartneriaeth drwy Fyrddau Diogelu Plant mwy er mwyn disodli strwythur presennol y Byrddau Diogelu Plant Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei chynigion mewn ymgynghoriad i gyflwyno fframwaith Adolygiad o Arferion Plentyn i ddisodli'r Adolygiadau Achosion Difrifol, a fydd yn darparu trefniadau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr o bob asiantaeth yn dysgu o brofiad a bydd hyn yn llunio trefniadau amddiffyn a diogelu plant mwy cadarn.

I: Effeithiau diwygio

Yn gyffredinol, beth mae'r newidiadau hyn yn ei olygu?

I rieni – system symlach, gliriach y byddant yn ei deall ac y gallant fod â ffydd ynddi, ac a fydd yn rhoi iddynt y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn gyflym ac yn effeithiol.

I weithwyr cymdeithasol – system wedi'i symleiddio, sy'n eu cefnogi ac yn eu hysbrydoli i ddefnyddio'u harbenigedd proffesiynol i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

I awdurdodau lleol – system sydd angen llai o adnoddau, sy'n rhoi hyblygrwydd lleol iddynt i benderfynu beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plentyn, heb waith craffu ychwanegol diangen.

I'r llysoedd a'r farnwriaeth – proses sy'n haws ei rheoli, sy'n llai biwrocratig ac sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion y plentyn.

I'r teulu ehangach – ymdeimlad clir o rolau a chyfrifoldebau, y gallu i gynnig mewnbwn a gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnoch, a dealltwriaeth o'r broses.

Ac yn bennaf oll, i blant – system gyflymach sy'n cydnabod, yn gwrando ac yn ymateb i'w hanghenion a'u pryderon; yn sicrhau eu lles a'u diogelwch; ac yn un sy'n eu helpu i fwynhau eu plentyndod yn yr amgylchedd mwyaf sefydlog posibl.

J: Beth sy'n digwydd nesaf...

102. Fel sy'n gweddu i gyfres mor bwysig o ddiwygiadau mawr, bydd hyn yn cymryd amser. Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud yn barod, a gellir datblygu pethau eraill yn fuan, ond mae gwaith arall sy'n fwy cymhleth a hirdymor a bydd yn golygu newid sylfaenol iawn, gan gynnwys newid i ddeddfwriaeth, ymddygiad a diwylliant.

103. Lle mae angen deddfwriaeth, bydd yn cael ei chyflwyno cyn gynted ag y mae amser seneddol yn caniatáu[35]. Byddwn yn mynd ati cyn gynted ag y bo modd i weithredu'r argymhellion eraill rydym wedi eu derbyn ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd am gynnydd drwy ein Cynlluniau Busnes Adrannol perthynol.

104. Dim ond y dechrau yw hyn …. mae ein hymrwymiad i ddiwygio yn gryf, a bydd yn cael ei gynnal.

105. Erbyn Ebrill 2012 byddwn wedi –

> Sefydlu'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu i ddechrau ar ei ymgyrch i wella perfformiad ym mhob rhan o'r system.
>
> Egluro'r newidiadau deddfwriaethol y bydd eu hangen a darparu asesiadau llawn o'r effaith.
>
> Nodi rhaglen waith fanwl gyda chynrychiolwyr Cyfarwyddwyr awdurdodau lleol (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a'r farnwriaeth.

106. Erbyn Ebrill 2013 –

> Bydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth roi'r rhaglen diwygio ehangach ar waith.
>
> Bydd gennym fesuryddion perfformiad i alw'r system i gyfrif a sbarduno newid.
>
> Byddwn wedi datblygu strategaeth trawsbynciol ar gyfer y gweithlu gyda'n partneriaid.
>
> Bydd y Bwrdd yn llunio ei adroddiad blynyddol cyntaf ar berfformiad y system Cyfiawnder Teulu yn ddiweddarach yn haf 2013.
>
> Bydd y ganolfan wybodaeth ar-lein wedi gwella, a bydd model ar gael yn cynnig ystod o offerynnau cefnogol i deuluoedd ac yn eu cyfeirio at gyngor a gwybodaeth deilwredig.

35 Bydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddatganoledig yn cael eu datblygu cyn gynted â phosibl yng nghyd-destun rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

K: Atodiad 1 – ymateb manwl i bob argymhelliad[36]

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Llais y plentyn			
1	Dylai plant a phobl ifanc gael gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran i egluro beth sy'n digwydd pan fyddant yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad y dylai plant sy'n rhan o anghydfod gael gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd. Mae hefyd yn awyddus i ddiwygio'r system gyfan mewn ffordd sy'n lleihau'r straen emosiynol ar y rhai dan sylw, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc hynny sydd wrth wraidd anghydfod. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Teulu, a fydd yn cael ei sefydlu gan y Llywodraeth, yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddatblygu a rhannu gwybodaeth sy'n briodol i oedran plant. Bydd yn gofyn am farn a syniadau plant a phobl ifanc wrth wneud hynny.

36 Recommendations are accepted by the Government in relation to England and Wales unless otherwise stated.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
2, 126	Dylai plant a phobl ifanc gael cymorth mor gynnar ag sy'n bosibl mewn achos er mwyn iddynt allu rhoi gwybod am eu barn, a dylai plant hŷn gael dewis o opsiynau, i egluro ym mha ffyrdd y gallant wneud hyn – os ydynt yn dymuno. Dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael gwrandawiad i'w barn mewn achosion sy'n ymwneud â nhw, os ydynt yn dymuno	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r egwyddor hon. Rhaid i blant a phobl ifanc fod yn ganolog i'r system a rhaid i'w barn gael ei hystyried mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â hwy. Dyma un o'r egwyddorion sy'n llywio'r gwaith o ddiwygio'r system ac sy'n sylfaen i'r Ddeddf Plant a gweithredoedd Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau bod y system yn gwrando ar blant, yn ystyried eu dymuniadau a'u teimladau, ac yn helpu gweithwyr proffesiynol i gael y sgiliau angenrheidiol i gefnogi plant a phobl ifanc i fynegi eu barn. Gofynnir i'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi plant, gan gynnwys rhestr o ddewisiadau, er mwyn iddynt allu rhoi eu barn a chael eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
3	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu roi arweiniad wrth ddatblygu a lledaenu safonau a chanllawiau cenedlaethol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y system. Dylai hefyd: i) sicrhau cysondeb gwasanaethau cefnogi, gwybodaeth i bobl ifanc ac arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws y wlad; a ii) goruchwylio'r gwaith o ledaenu ymchwil gyfredol a dadansoddi anghenion, barn a datblygiad plant.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai gweithio gyda phlant fod yn rhan ganolog o weithrediad y system Cyfiawnder Teulu ac mae'n cydnabod yr angen am arweiniad cenedlaethol yn y maes hwn. Bydd Bwrdd y System Cyfiawnder Teulu yn ystyried sut y gellir datblygu a lledaenu safonau a chanllawiau o'r fath, a sut y gellir sicrhau cysondeb cefnogaeth, gwybodaeth ac arferion. Bydd yn helpu i ledaenu gwaith ymchwil a dadansoddi perthnasol sy'n ymwneud â phlant i ymarferwyr yn y system Cyfiawnder Teulu a rhanddeiliaid ehangach fel y bo'n briodol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
4	Dylid cael Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu, â'r cylch gorchwyl o ystyried materion mewn cyfraith gyhoeddus a phreifat ac adrodd yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth am feysydd sy'n peri pryder neu am feysydd sydd o ddiddordeb.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai plant a phobl ifanc gael eu cynrychioli mewn unrhyw drefniadau llywodraethu newydd sy'n cael eu sefydlu. Mae'r Llywodraeth yn trafod gyda Cafcass ar hyn o bryd sut y byddai'r Bwrdd Pobl Ifanc yn cymryd ei le orau yn y trefniadau llywodraethu cenedlaethol newydd.
5	Dylai Llywodraeth y DU fonitro effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ofalus.	Derbyn	Mae Mesur Cymru yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fydd yn cryfhau ac yn adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n rhoi dyletswydd ar weinidogion Cymru (o Fai 2012 ymlaen) i roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu unrhyw bolisi newydd neu newid i bolisi presennol, ac o Fai 2014 ymlaen, bydd y ddyletswydd hon yn cael ei hymestyn i bawb sy'n ymarfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, gan gynnwys Cafcass Cymru. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Cynllun Plant sy'n nodi'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol. Pwysleisiodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad ei hun i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy Ddatganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 6 Rhagfyr 2010 a bydd yn monitro cynnydd a goblygiadau'r mesurau newydd yng Nghymru'n ofalus iawn (yn ogystal â chynnydd cynigion tebyg a wnaethpwyd gan Lywodraeth yr Alban). Bydd hyn yn cynnwys monitro unrhyw effeithiau yn ymwneud â'r system Cyfiawnder Teulu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu			
6, 7, 8, 9, 11	Dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gael ei sefydlu, dan nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gyda chysylltiadau cryf ar lefel Weinidogol a lefel swyddogol â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. Fel cam cyntaf, dylid sefydlu Bwrdd Dros Dro, a ddylai gael cylch gwaith clir i gynllunio ar gyfer newid mwy sylfaenol gan ddilyn amserlen wedi'i diffinio nes sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu fod â threfniadau llywodraethu canolog a lleol cryf. Bydd angen y rolau a gyflawnir gan y Cyngor Cyfiawnder Teulu mewn unrhyw strwythur newydd ond bydd angen i'r llywodraeth ystyried sut y gellir eu harfer mewn modd sy'n cydweddu â threfniant terfynol y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu (a'r Bwrdd Dros Dro). Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu fod yn gyfrifol am y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol llysoedd yn Lloegr, cyfryngu, gwasanaethau datrys anghydfodau y tu allan i'r llysoedd ac, ymhen amser o bosibl, ar gyfer arbenigwyr a chyfreithwyr i blant.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad y dylid sefydlu bwrdd dros dro cyn unrhyw ddiwygio strwythurol ehangach. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Teulu yn cael ei sefydlu, gan ddod â'r prif adrannau, cyrff cyflawni, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r farnwriaeth at ei gilydd mewn un fforwm i oruchwylio'r gwaith o gyflawni Cyfiawnder Teulu. Ei flaenoriaeth fydd ysgogi gwelliannau ym mherfformiad y system gan ganolbwyntio'n glir ar fwy o gydlynu rhwng asiantaethau, mynd i'r afael ag amrywiadau mewn perfformiad lleol a gwneud cynnydd yng nghyswllt y terfyn amser o 6 mis ar gyfer achosion gofal. Bydd trefniadau llywodraethu lleol yn cael eu sefydlu, gan ddod â'r ystod bresennol o grwpiau lleol at ei gilydd mewn un corff i helpu i gydlynu'r systemau Cyfiawnder Teulu lleol a chyfuno gweithgareddau. Bydd y grwpiau hyn yn adrodd am eu cynnydd i is-grŵp perfformiad o'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu cenedlaethol a fydd, yn ei dro, yn adrodd am gynnydd cyffredinol i weinidogion, gan gynnwys paratoi adroddiad blynyddol. Er mwyn cyflawni'r ystyriaeth bellach a argymhellwyd gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu, bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried pa ddiwygio strwythurol pellach sydd ei angen, gan adeiladu ar y gwaith y mae'r Adolygiad wedi'i wneud. Bydd yn ofynnol i unrhyw gorff yn y dyfodol ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Yn Lloegr, bydd Cafcass yn cael ei drosglwyddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder cyn diwedd cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn. Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru fydd â'r cyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwaith cymdeithasol llysoedd o hyd, drwy Cafcass Cymru.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
	Dylid gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai adroddiad blynyddol egluro sut mae'r ddyletswydd hon wedi'i chyflawni.		Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen cadw'r rolau sy'n cael eu cyflawni gan y Cyngor Cyfiawnder Teulu a bydd yn edrych sut y gall arbenigedd y Cyngor fod yn sail i waith Bwrdd Diwygio'r System Cyfiawnder Teulu. Bydd y Bartneriaeth Genedlaethol ar gyfer Perfformiad yn cael ei datblygu i is-grŵp Perfformiad Bwrdd Diwygio'r System Cyfiawnder Teulu, gan ei galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol i waith y Bwrdd.
10	Dylid dileu'r ffioedd a godir ar awdurdodau lleol am geisiadau cyfraith gyhoeddus ac ar awdurdodau lleol a Cafcass am wiriadau'r heddlu mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.	Gwrthod dileu ffioedd awdurdodau lleol am geisiadau cyfraith gyhoeddus; Derbyn am wiriadau'r heddlu.	Ffioedd awdurdodau lleol: Ni ddylai ac nid oes angen i benderfyniad y Llywodraeth i beidio â derbyn yr argymhelliad i ddileu ffioedd cyfraith gyhoeddus gael unrhyw effaith ar awdurdodau lleol sy'n amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Lle gallai plant fod mewn perygl o niwed, bydd awdurdodau lleol yn ymchwilio ac yn anfon unrhyw achos i'r llys cyn gynted ag y bo modd. Ni welodd yr Adolygiad unrhyw dystiolaeth bod ffioedd llys yn atal awdurdodau lleol rhag cyflawni eu dyletswydd statudol.. Mae'r agwedd at ffioedd llys yn adlewyrchu'r polisi, sydd wedi bod yn cael ei weithredu gan lywodraethau'r DU ers tro, y dylai ffioedd statudol gael eu pennu ar lefel sy'n adennill cost y gwasanaeth a ddarperir, a dim mwy. Mae angen ffioedd llys er mwyn sicrhau bod llysoedd teulu'n cael eu hariannu'n briodol. Bob blwyddyn mae'r Llywodraeth yn darparu arian i dalu costau awdurdodau lleol mewn achosion amddiffyn plant, gyda'r cynghorau'n cael yr hyblygrwydd i ddyrannu'r arian yn unol ag anghenion lleol. Mae hyn yn darparu mwy o dryloywder ynghylch gwir gost y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac yn eu galluogi i nodi'n well pa agweddau allai fod dan bwysau, a thrwy hynny wella gwasanaethau yn yr hirdymor.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
			Mae cost y ffioedd hyn wedi'i hymgorffori fel sy'n briodol i setliadau'r Adolygiad o Wariant am 2010 ar gyfer yr adrannau hynny sy'n cael eu heffeithio – Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwiriadau'r heddlu: Polisi'r Llywodraeth yw na ddylid codi ffioedd heddlu er mwyn cynnal gwiriadau mewn achosion cyfraith breifat na chyhoeddus gan fod gwiriadau o'r fath yn un o sywddogaethau craidd yr heddlu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r broses ar gyfer darparu gwiriadau lefel 1 wedi cael ei gwella'n sylweddol drwy ddarparu'r gwiriadau hyn drwy staff yr heddlu sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan Fusnes Genedlaethol Cafcass. Bydd cylchlythyr gan y Swyddfa Gartref, yn cael ei gefnogi gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni er mwyn nodi sut y bydd yr heddluoedd yn cyflawni eu cyfrifoldeb i wneud gwiriadau lefel 2 yn ddi-dâl. Rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r sefyllfa ynghylch gwiriadau'r heddlu mewn cyfraith gyhoeddus. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i heddluoedd lleol godi tâl ar awdurdodau lleol am wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau cyfraith gyhoeddus.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
12, 13, 14, 15	Dylid datblygu system TG integredig i'w defnyddio yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ac asiantaethau Cyfiawnder Teulu ehangach. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi. Yn y cyfamser, dylai'r llywodraeth gynnal adolygiad brys ynghylch y modd y gellid defnyddio'r systemau presennol yn well. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ddatblygu a monitro safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer prosesau system gyfan, wedi'u seilio ar wybodaeth leol a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau.	Derbyn	Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Teulu yn ystyried beth fyddai gofynion system TG newydd, gan weithio gyda'r asiantaethau darparu unigol. Yn y cyfamser, bydd y Llywodraeth yn gweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r systemau a'r ffynonellau data presennol. Bydd y Bwrdd yn sefydlu safonau ansawdd cenedlaethol, lle bo'n briodol, ar gyfer y system Cyfiawnder Teulu a bydd yn cysylltu gyda'r byrddau lleol er mwyn gwneud hynny. Bydd y Llywodraeth yn cymryd camau yn awr er mwyn asesu blaenoriaethau ar gyfer y system Cyfiawnder Teulu, ac ariannu ymchwil i'r system a gwerthusiad ohoni. Bydd y Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu a grwpiau lleol newydd er mwyn lledaenu ymchwil yn well drwy'r system.
	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gydgysylltu system gyfan o drafod ymchwil a gwerthuso, yn cael ei chefnogi gan gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil (wedi'i chyfuno o gyllidebau'r gwahanol gyrff sy'n comisiynu ymchwil ar hyn o bryd). Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gynnal adolygiad ac ystyried sut y dylid lledaenu ymchwil o amgylch y system Cyfiawnder Teulu		

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
16, 17, 18, 19, 20	Dylai Is-lywydd yn yr Adran Deulu gynorthwyo Llywydd yr Adran Deulu yn ei rôl arwain, gan fonitro perfformiad y farnwriaeth deuluol yn gyffredinol. Dylid ailenwi Barnwyr Cyswllt yr Adran Deulu'n Farnwyr Llywyddol Teuluol, a fydd yn adrodd i Is-lywydd yr Adran Deulu ar faterion perfformiad yn eu cylchdaith. Dylai barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain gael cyfrifoldebau rheoli cliriach. Dylid cael disgrifiadau swydd mwy pendant, sy'n nodi disgwyliadau clir o ran cyfrifoldebau rheoli a gweithio rhwng asiantaethau. Dylai GLlTEM drefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer llysoedd ac ardaloedd fod ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu. Dylid trefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer barnwyr unigol fod ar gael i'r barnwyr hynny yn ogystal â barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain. Dylai'r farnwriaeth gytuno ar y dangosyddion allweddol.	Derbyn (yn rhannol)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad ynglŷn â'r angen am well trefniadau rheoli perfformiad yn y farnwriaeth deuluol yn gyffredinol. Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda'r uwch farnwriaeth, rydym wedi cytuno nad oes angen derbyn yr argymhelliad i benodi Is-lywydd yn yr Adran Deulu, ac nad oes angen ailenwi'r rôl sy'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan Farnwyr Cyswllt yr Adran Deulu. Yn lle hynny, mae'r farnwriaeth wedi ymrwymo i gyflawni unrhyw newidiadau yn ymwneud ag arweiniad sydd eu hangen o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Bydd angen i'r Llywodraeth weithio gyda'r farnwriaeth, gan gynnwys y barnwr â chyfrifoldeb am foderneiddio Cyfiawnder Teulu, er mwyn nodi'n glir beth yw'r goblygiadau o ran strwythurau rheolaeth y farnwriaeth deuluol a pha fecanweithiau cefnogi y bydd angen eu darparu er mwyn sicrhau y bydd unrhyw newidiadau yn sicrhau gwelliannau mesuradwy i berfformiad lleol a rhanbarthol..

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Arweinyddiaeth a diwylliant barnwrol			
	Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig fod â chyfrifoldeb arwain dros yr holl lysoedd yn eu hardal. Bydd angen iddynt gydweithio'n agos â Chlercod yr Ynadon, cadeiryddion meinciau teulu a chyd-farnwyr		Mae'r gwaith yn cael ei wneud yn barod, drwy'r Swyddfa Farnwrol, er mwyn llunio disgrifiadau swydd cyson, gan sicrhau dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau lefelau amrywiol y farnwriaeth deuluol. Rydym yn cefnogi'r dull hwn o weithredu a chredwn ei fod yn dechrau mynd i'r afael ag argymhelliad yr Adolygiad am fwy o gysondeb yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. O Ionawr 2012 ymlaen, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi casgliad o ystadegau, fesul llys, a fydd yn darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Cyfiawnder Teulu a'r cyhoedd ynglŷn â nifer yr achosion yr ymdrinnir â hwy yn y llysoedd teulu a faint o amser a gymerwyd i ymdrin ag achosion gofal. Er ein bod yn gweld rhinwedd yn argymhelliad yr Adolygiad i sefydlu set o ddangosyddion a fydd yn helpu'r farnwriaeth i gyflawni'r rôl rheoli perfformiad, bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn gweld sut y gellid gwneud hyn heb ychwanegu'n ormodol at y baich o gasglu data, oherwydd gwyddom fod cyfyngiadau yn y ffordd y mae'r systemau TG presennol yn cofnodi gwybodaeth yn y llysoedd teulu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
21, 22, 23, 24	Dylai'r farnwriaeth geisio sicrhau dilyniant barnwrol yn yr holl achosion teulu. Dylai'r farnwriaeth sicrhau bod amod i gymryd gwaith teulu'n cynnwys parodrwydd i addasu patrymau gwaith er mwyn gallu cynnig dilyniant. Dylai Llywydd yr Adran Deulu ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i ganiatáu modd i sicrhau dilyniant yn yr Uchel Lys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â dadansoddiad yr Adolygiad bod dilyniant barnwrol yn hwyluso'r gwaith o reoli achosion yn effeithiol. Bydd dyrannu barnwyr a chynghorwyr cyfreithiol i achosion lle maent yn gyfarwydd â'r prif faterion yn yr achos, a lle maent yn cadw cyfrifoldeb am y prif benderfyniadau rheoli achos sy'n cael eu gwneud, yn helpu i reoli achosion yn fwy effeithiol a lleihau oedi. Mae'r Llywodraeth hefyd yn derbyn y gall dilyniant barnwrol, o safbwynt plant a theuluoedd, yn enwedig rhai sy'n ymladd achos drostynt eu hunain, sy'n ymdrin â phroses llys anghyfarwydd, fagu hyder a darparu cysondeb ar adeg anodd.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
	Mewn Llysoedd Achosion Teuluol, dylai dilyniant barnwrol gael ei ddarparu, os oes modd, gan holl aelodau'r fainc a'r cynghorydd cyfreithiol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid darparu dilyniant drwy'r un cadeirydd mainc, aelod mainc a chynghorydd cyfreithiol.		Mae dilyniant barnwrol yn cael ei gydnabod gan lawer fel elfen hanfodol o'r broses o reoli achosion yn effeithiol, ac yng nghyswllt achosion gofal a goruchwylio, mae *Practice Direction 12 A Public Law Proceedings Guide to Case Management: April 2010* yn nodi ar hyn o bryd y disgwylir i bob achos gael ei ddyrannu i un neu ddim mwy na dau farnwr rheoli achosion (yng nghyswllt rheolwyr achosion llysoedd Ynadon), a fydd yn gyfrifol am bob cam rheoli achosion yn yr achosion hyd at y Gwrandawiad Terfynol, ac yng nghyswllt yr Uchel Lys neu'r llys sirol, dylai un ohonynt efallai – lle bo modd – fod yn farnwr a fydd yn cynnal y Gwrandawiad Terfynol. Mae Llywydd yr Adran Deulu wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr Arglwydd Brif Ustus, i bwysleisio pwysigrwydd dilyniant barnwrol a darparu cyngor ymarferol ynglŷn â'r ffordd orau o'i weithredu. Fel cam cyntaf, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r swyddfa farnwrol a GLlTEM er mwyn hybu rhagor ar y canllawiau presennol ar sicrhau dilyniant yn y llysoedd teulu. Mae'r Llywodraeth yn credu bod argymhellion yr Adolygiad felly'n cynnig ysgogiad i weithredu'r canllawiau presennol a dyheadau ar gyfer dilyniant gyrfaol ac i fynd i'r afael â'r heriau sydd ar ôl. Bydd angen edrych yn ofalus ar batrymau gwaith rhai barnwyr a chynghorwyr cyfreithiol, a'u newid lle bo'n briodol. Dylai hyn gynnwys edrych ar system gylchdaith yr Uchel Lys. Bydd angen ystyried anawsterau ymarferol hefyd fel niferoedd isel yr achosion mewn rhai llysoedd bach a gofynion canolfannau mwy fel Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
			O safbwynt gweinyddol, er mwyn sicrhau dilyniant, mae'n debyg y bydd angen i'r farnwriaeth, â chefnogaeth GLlTEM, addasu arferion rhestru lleol ac arferion rhestru'r gylchdaith. Bydd angen i hyn fod yn ystyriaeth allweddol hefyd yn adolygiad GLlTEM o strwythurau cyfreithiol a'r adolygiad o'i ystâd llysoedd, sy'n rhan o Lasbrint Gweithredu GLlTEM ar gyfer y Dyfodol
25, 26, 27	Dylid galluogi ac annog barnwyr ac ynadon i arbenigo mewn materion teuluol. Dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ystyried parodrwydd i arbenigo mewn materion teuluol wrth benodi i'r farnwriaeth deuluol. Dylai'r Swyddfa Farnwrol adolygu'r cyfyngiad ar ddiwrnodau eistedd ynadon.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â dadansoddiad yr Adolygiad y bydd galluogi ac annog arbenigo mewn materion teuluol yn gwella dilyniant barnwrol ac yn creu barnwriaeth deuluol fwy profiadol. Mae Llywydd yr Adran Deulu wedi dweud ei fod yn ffafrio mainc mwy arbenigol ac y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i fanteision pennu isafswm ar gyfer diwrnodau eistedd y farnwriaeth deuluol. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol er mwyn nodi a dileu unrhyw rwystrau a allai atal darpar farnwyr sy'n dymuno arbenigo, ond bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a'r angen i gadw'r hyblygrwydd busnes sydd ynghlwm wrth y broses o benodi barnwr sy'n gallu eistedd mewn mwy nag un awdurdodaeth. Bydd y Llywodraeth yn adolygu prosesau sy'n ymwneud â rheoli diwrnodau eistedd ynadon a'r system bresennol o ysgrifennu at ynadon sy'n mynd dros y trothwy uchaf sy'n cael ei argymell. Mae'r Llywodraeth yn cytuno na ddylai'r rhai hynny sy'n barod i eistedd diwrnodau ychwanegol er mwyn gwrando achosion teuluol gael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd trothwy mympwyol. Bydd y Llywodraeth yn ystyried gyda'r Swyddfa Farnwrol, cyn gynted ag y bo modd, sut y gellir gwella prosesau o'r fath.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Rheoli achosion			
28	[gweler argymhelliad 72]		
Y llysoedd			
29, 30, 32, 33	Dylai llys teulu sengl, gydag un pwynt mynediad, gymryd lle tair haen bresennol y llysoedd. Dylai rhai ar bob lefel yn y farnwriaeth deuluol (gan gynnwys ynadon) eistedd yn y llys teulu a dylid dyrannu gwaith yn ôl cymhlethdod yr achos. Dylid alinio rolau Barnwyr Rhanbarth sy'n gweithio yn y llys teulu. Dylai Adran Deulu'r Uchel Lys barhau, gydag awdurdodaeth unigryw dros achosion sy'n ymwneud â'r awdurdodaeth gynhenid a gwaith rhyngwladol sydd wedi'i ragnodi gan Lywydd yr Adran Deulu fel gwaith sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer. Dylid gwrando pob mater arall yn y llys teulu sengl, gyda barnwyr yr Uchel Lys yn eistedd yn y llys hwnnw i wrando'r achosion a dadleuon mwyaf cymhleth.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda'r Adolygiad ynghylch manteision egluro a symleiddio'r llysoedd teulu, a gwneud eu gweithrediad yn fwy tryloyw drwy sefydlu un Llys Teulu ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r Llywodraeth hefyd yn derbyn bod angen cadw statws yr Uchel Lys yng nghyswllt ei waith rhyngwladol, a'i awdurdodaeth gynhenid. Bwriad y Llywodraeth yw sicrhau bod achosion yn y Llys Teulu'n cael eu dyrannu i'r lefel briodol yn y farnwriaeth ar sail y math o achos a'i gymhlethdod. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod lle i alinio rolau'r tri gwahanol fath o Farnwr Rhanbarth, ond, fel sy'n cael ei gydnabod yn yr Adolygiad, bydd angen cadw statws a phrofiad Barnwyr Rhanbarth Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu. Bydd creu un llys teulu'n hwyluso diwygiadau ehangach fel bod modd gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau llys, a gweinyddu achosion yn fwy effeithiol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
31	Dylid cael hyblygrwydd er mwyn i gynghorwyr cyfreithiol ymgymryd â gwaith i helpu barnwyr ym mhob rhan o'r llys teulu.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gallai cynghorwyr cyfreithiol, sy'n gweithio yn y llysoedd ynadon yn unig ar hyn o bryd, ymgymryd â rhai o swyddogaethau lled-weinyddol y farnwriaeth ym mhob rhan o'r Llys Teulu pan fydd wedi cael ei sefydlu. Enghreifftiau o'r math o waith y gellid ei ddirprwyo yw: swyddogaeth didolwr (a fyddai'n penderfynu gerbron pwy y byddai'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu gwrando); rhai gorchmynion trefniadol nad oes anghydfod yn eu cylch, neu y cytunwyd arnynt; achosion ysgariad nad ydynt yn cael eu hymladd. Datblygir cynigion manwl ar wahân.
34, 35, 36, 37	Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth sicrhau bod technoleg ffôn neu fideo'n cael ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau arferol lle bynnag y mae'n briodol. Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth ddefnyddio lleoliadau amgen ar gyfer gwrandawiadau nad oes angen eu cynnal mewn ystafell llys. Dylai GLlTEM sicrhau bod adeiladau llys mor ystyriol ag sy'n bosibl o deuluoedd. Dylai GLlTEM adolygu'r ystâd ar gyfer llysoedd teulu i leihau nifer yr adeiladau lle y gwrandewir achosion, i hybu effeithlonrwydd, dilyniant barnwrol ac arbenigo. Dylid gwneud eithriadau ar gyfer ardaloedd gwledig lle mae cludiant yn wael.	Derbyn	Mae'r argymhellion hyn yn unol â strategaeth GLlTEM i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys presenoldeb yr ystâd wrandawiadau. Y nod yw cael ystâd â'r gallu priodol i ddiwallu anghenion y busnes, sydd hefyd yn effeithlon ac yn llai costus i'w rhedeg. Mae GLlTEM yn cael gwared ar swyddogaethau prosesu anfarnwrol, cefn swyddfa o lysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn ad-drefnu ei ystâd a datblygu rhwydwaith o ganolfannau gwrando modern sy'n gallu gweithredu'n hyblyg wrth ymdrin â gwahanol lwythi gwaith a gofynion cwsmeriaid. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gellir cynnal gwrandawiadau nad oes angen iddynt gael eu cynnal mewn ystafell llys mewn ystafelloedd llai ffurfiol, sy'n fwy ystyriol o deuluoedd. Bydd yr hyblygrwydd yn ystâd gwrandawiadau GLlTEM yn y dyfodol yn cefnogi hyn.

50 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu:
System sydd â phlant a theuluoedd yn ganolog iddi

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
38	Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth adolygu gweithrediad a threfniant y llysoedd teulu yn Llundain.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhellion yr Adolygiad ynglŷn â chreu un Llys Teulu. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod hyn yn codi cwestiynau hirdymor ynglŷn â rôl Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu yn y Llys Teulu yn y dyfodol, ac yn cytuno y dylai'r rôl gael ei hadolygu gan yr Awdurdod Materion Teuluol cyn gynted ag y bo modd.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Y gweithlu			
39, 40	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ddatblygu strategaeth gweithlu. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ddatblygu set gytûn o sgiliau a gwybodaeth graidd ar gyfer Cyfiawnder Teulu.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd strategaeth gweithlu yn offeryn allweddol er mwyn llunio gweledigaeth ar gyfer y modd y bydd y gwaith o ddiwygio'r gweithlu'n cael ei gyflawni ym mhob rhan o'r system Cyfiawnder Teulu. Dyma'r tro cyntaf i gynllun hirdymor ar gyfer hyfforddiant a datblygiad y gweithlu Cyfiawnder Teulu gael ei lunio ac mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r farn y bydd yn gwella'r ffordd y mae'r proffesiynau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu erbyn Ebrill 2013. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd cael consensws rhwng y cyrff proffesiynol perthnasol a chyflogwyr, a fydd yn gyfrifol am weithredu elfennau sylweddol o'r gwaith diwygio, yn hanfodol. Bydd angen i'r Llywodraeth weithio gyda'r partneriaid hynny er mwyn: datblygu safbwyntiau'r Adolygiad ynglŷn â datganiad cytûn o'r sgiliau a'r wybodaeth graidd a ddisgwylir gan weithwyr proffesiynol Cyfiawnder Teulu; cytuno ar y blaenoriaethau hyfforddi a datblygu tymor byr a hirdymor ar gyfer y gweithlu, gan sicrhau bod y rhain yn gydnaws â strategaethau sy'n bodoli'n barod, fel y rhaglenni diwygio sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr; a llunio cynllun ar gyfer cynyddu cyfleoedd dysgu rhyngddisgyblaethol, er mwyn hwyluso gwell deialog a mwy o gyfleoedd dysgu rhwng gweithwyr proffesiynol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
41, 42, 43, 56	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gyflwyno cwrs sefydlu rhyngddisgyblaethol ar gyfer Cyfiawnder Teulu. Dylai cyrff proffesiynol adolygu cynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn addas mewn cysylltiad â chyfiawnder teuluol. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ddatblygu blaenoriaethau blynyddol ar gyfer hyfforddiant rhyngddisgyblaethol i'r gweithlu er mwyn llywio cynnwys hyfforddiant rhyngddisgyblaethol yn lleol. Dylai cyrff proffesiynol cyfreithwyr ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gyfreithwyr, drwy gydweithio â grwpiau sy'n cynrychioli tystion arbenigol, ynghylch sut i ddrafftio cyfarwyddiadau effeithiol ar gyfer tystiolaeth gan arbenigwyr.	Derbyn (angen rhagor o waith â chyrff proffesiynol)	Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod dadl dros ddarparu cwrs sefydlu ym maes Cyfiawnder Teulu i bob gweithiwr proffesiynol newydd sy'n dod i weithio yn y system. Fodd bynnag, bydd angen i'r Llywodraeth edrych ar y dewisiadau amrywiol ar gyfer cyflawni hyn gyda'r rhai sy'n gweithio yn y system er mwyn sicrhau bod y dull mwyaf priodol a chymesur yn cael ei fabwysiadu. Bydd cysylltiad anorfod rhwng cynnwys manwl y cwrs sefydlu hwn a datblygiad y fframwaith sgiliau a gwybodaeth graidd a'r blaenoriaethau hyfforddi a datblygu a nodir yn y strategaeth gweithlu. Mae rhagor o waith i'w wneud felly er mwyn rhoi cig am esgyrn y cynnig hwn. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn am sylwadau cychwynnol gan Gymdeithas y Cyfreithwyr ac mae wedi cytuno i nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â phryderon yr Adolygiad, drwy ymgynghori â'r proffesiwn a grwpiau o arbenigwyr er mwyn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wella ansawdd cyfarwyddiadau i dystion sy'n arbenigwyr. Bydd angen edrych ar yr argymhelliad hwn ar y cyd ag argymhelliad yr Adolygiad y dylai barnwyr nodi mewn gorchymyn llys ar ba gwestiynau y dylai tystion sy'n arbenigwyr ganolbwyntio. (gweler hefyd argymhellion 81, 82 ac 84) Fel y mae'r Adolygiad yn cydnabod, mae nifer o gyrff proffesiynol gan gynnwys y Bar eisoes yn cynnal adolygiad o'r gofynion presennol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus. Cyfrifoldeb y cyrff proffesiynol hynny fydd ystyried argymhelliad yr Adolygiad ond bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r cyrff hynny er mwyn cytuno ar agwedd tuag at ddysgu parhaus fel rhan o'r gwaith o sefydlu strategaeth gweithlu ar gyfer Cyfiawnder Teulu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
44	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu sefydlu cynllun peilot lle byddai barnwyr ac ynadon yn dysgu am y canlyniadau i blant a theuluoedd y maent wedi dyfarnu yn eu cylch.	Derbyn (mewn egwyddor)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn mewn egwyddor – ar hyn o bryd ychydig iawn o adborth sydd ar gael i farnwyr ar ôl i achos adael y llys a gallai mecanwaith fel hwn ddarparu adborth strwythuredig ar ganlyniadau hirdymor y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.
45	Dylid cael system o adolygiadau achos o brosesau helpu i sefydlu ymarfer myfyriol yn y system Cyfiawnder Teulu.	Derbyn (mewn egwyddor, yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai fforwm ar gyfer adolygiadau systematig o achosion penodol fod yn fanteisiol, mewn egwyddor. Mae'r Llywodraeth yn cynnig mai cynllun peilot bach yw'r ffordd orau mae'n debyg o brofi'r manteision ac asesu'r goblygiadau o ran adnoddau ac amser i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses. Bydd angen i'r Llywodraeth weithio gydag asiantaethau darparu a'r farnwriaeth er mwyn nodi cwmpas y cynllun peilot o ran mathau o achosion, nodau ac amcanion, pwy fydd yn ymwneud â'r cynllun peilot a datblygu mesuryddion llwyddiant. Mae'r argymhelliad yn gydnaws ag Adolygiad Munro o amddiffyn plant yn Lloegr sy'n argymell dysgu parhaus, ymarfer myfyriol a mwy o gydweithio rhwng asiantaethau; a chynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith Adolygiad o Arferion Plentyn i ddisodli'r Adolygiadau Achosion Difrifol, a fydd yn darparu trefniadau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr o bob asiantaeth yn dysgu o brofiad a bydd hyn yn llunio trefniadau amddiffyn a diogelu plant mwy cadarn.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
46, 47, 48, 49, 50, 54, 55, 67	Dylai'r Coleg Barnwrol adolygu'r dull o ddarparu hyfforddiant er mwyn pennu manteision darparu cwrs sgiliau barnwrol craidd ar gyfer holl aelodau newydd y farnwriaeth. Dylai'r Coleg Barnwrol ddatblygu hyfforddiant i helpu barnwyr uwch i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain. Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant barnwrol ar gyfer gwaith teuluol yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddatblygiad plant a rheoli achosion. Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant sefydlu i'r farnwriaeth deulu'n cynnwys ymweliadau ag asiantaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r system. Dylid cael disgwyliad y bydd holl aelodau'r farnwriaeth leol, yn cynnwys y fainc leyg a chynghorwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â gwaith teuluol, yn dod at ei gilydd mewn gweithgareddau hyfforddi. Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant sefydlu i ynadon teulu newydd yn cynnwys mwy o bwyslais ar reoli achosion, datblygiad plant ac ymweliadau ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r system.	Derbyn (mewn egwyddor, yn amodol ar ragor o waith)	Yr Arglwydd Brif Ustus sy'n gyfrifol am les, hyfforddiant ac arweiniad y farnwriaeth, gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan yr Arglwydd Ganghellor. Felly bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Farnwrol er mwyn adolygu'r rhaglenni hyfforddi presennol, a sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer y meysydd a nodwyd gan yr Adolygiad mewn hyfforddiant barnwrol. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn am sylwadau cychwynnol gan y Coleg Barnwrol ynglŷn â'r argymhellion hynny sy'n cyfeirio'n benodol at hyfforddiant a allai gael ei ddarparu i'r farnwriaeth deuluol drwy'r Coleg Barnwrol. Mae'r Coleg Barnwrol wedi cadarnhau mai un elfen bwysig o strategaeth y Coleg Barnwrol yw nodi meysydd gwybodaeth ac arbenigedd sy'n gyffredin i bawb sy'n dal swydd farnwrol, a chynllunio a darparu'r rhain wedyn fel rhaglenni ar gyfer hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddechrau'n barod. Mae'r Coleg Barnwrol eisoes yn darparu hyfforddiant ar y meysydd hynny lle mae hyfforddiant yn cael ei argymell ar gyfer barnwyr, ynadon a chynghorwyr cyfreithiol (e.e. rheoli achosion, datblygiad plant, a chyfyngiadau ar arbenigwyr) a rhoddir ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o adeiladu ar yr elfennau hyn sy'n bodoli'n barod.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
	Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod cynghorwyr cyfreithiol yn cael hyfforddiant penodol ar reoli achosion. Mae gwahanol lysoedd yn defnyddio gwahanol ddulliau o reoli achosion mewn cyfraith gyhoeddus. Mae angen i'r farnwriaeth gasglu'r rhain, ymchwilio iddynt a'u lledaenu er mwyn rhannu'r arferion gorau a sicrhau cysondeb.		Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn pennu faint yn union o hyfforddiant sydd ei angen er mwyn helpu i weithredu pecyn diwygio cyffredinol yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu a faint o adnoddau fydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwaith. Byddai'r Coleg Barnwrol, yn amodol ar ddarparu'r adnoddau angenrheidiol lle bo'n briodol, yn gallu darparu'r hyfforddiant sydd ei angen, a gallai gynnwys agweddau fel rheolaeth achosion, datblygiad plant, defnydd priodol o arbenigwyr, y terfynau newydd sy'n cael eu hawgrymu rhwng y llys a'r awdurdod lleol, a'r terfyn amser newydd o chwe mis sy'n cael ei gynnig ar gyfer cwblhau achosion gofal. Efallai hefyd y byddai rhaglen hyfforddi genedlaethol yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud ag anghysondeb wrth gymhwyso'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.. Mae'r Coleg Barnwrol yn cydnabod hyfforddiant arwain a rheoli fel elfen bosibl o hyfforddiant barnwrol. Y farnwriaeth uwch fydd yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach, ond pe bai hyn yn cael ei nodi fel blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant, yna bydd y Coleg yn barod i ymateb, a byddai'r rhai hynny sy'n ymwneud â gwaith teulu'n cael eu cynnwys wrth gwrs. Bydd y Coleg Barnwrol yn gweithio gydag asiantaethau darparu er mwyn ystyried beth yw'r ffordd orau o hwyluso ymweliadau barnwrol i leoliadau gwaith asiantaethau darparu fel rhan o raglen sefydlu ddiwygiedig. Bydd cyfleoedd eraill i gynnwys y farnwriaeth a'r ynadaeth mewn cyfleoedd hyfforddiant yn cael eu hystyried drwy ddatblygu'r strategaeth gweithlu.

56 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu:
System sydd â phlant a theuluoedd yn ganolog iddi

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
51, 52, 53	Yn dilyn cynhadledd flynyddol y Llywydd dylid cael cyfarfodydd ar lefel cylchdeithiau rhwng y Barnwyr Llywyddol Teuluol a'r uwch farnwriaeth yn eu hardaloedd i drafod y dull o gyflawni busnes teuluol. Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r barnwyr y maent yn gyfrifol am eu harwain. Dylid cefnogi Barnwyr a rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen i roi mwy o gymorth i'w gilydd.		Bydd Llywydd yr Adran Deulu'n cyhoeddi canllawiau i'r Barnwyr Llywyddol Teuluol cyn bo hir drwy swydd-ddisgrifiad ffurfiol yn nodi prif gyfrifoldebau'r rôl. Bydd Llywydd yr Adran Deulu'n dal i ystyried sut y gellir gwella rolau arwain barnwrol, ar y cyd â'i gydweithwyr uwch ym mhob un o'r awdurdodaethau.
56	[gweler argymhelliad 41]		

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
57, 58, 59	Dylai'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ystyried rhoi canllawiau i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch ynghylch addysgu sgiliau llys, a hynny'n cynnwys sut i ddarparu asesiadau o ansawdd uchel sy'n disgrifio hanes y plentyn ar ffurf naratif clir. Dylai'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ystyried gyda chyflogwyr a yw hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yn cynnwys pwyslais digonol ar ddatblygiad plant, ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol hynny sy'n dymuno mynd ymlaen i weithio gyda phlant. Dylai'r Bwrdd Gwella i Blant ystyried pa hyfforddiant a phrofiad gwaith sy'n briodol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant sydd heb ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol.	Derbyn	Mae'r llysoedd yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses ddiogelu. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen i sgiliau sy'n gysylltiedig â'r llys gael lle mwy blaenllaw mewn hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol a pharhaus. Bydd y trefniadau gweithredu'n cael eu trafod a'u datblygu gyda'r Coleg Gwaith Cymdeithasol ac fel rhan o'r cynlluniau ehangach i weithredu argymhellion Munro yn ogystal â gyda'r Cyngor Gofal er mwyn cyflwyno *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*. Y canllawiau newydd arfaethedig ar rôl y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant yn Lloegr (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd) fyddai'r cyfrwng priodol i bwysleisio'r cyfrifoldeb cyffredinol sydd gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant am fewnbwn gofal cymdeithasol i'r llysoedd. Yn ychwanegol at hyn, yn amodol ar drafodaethau gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, gellid cyflwyno rhaglen waith er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau llys drwy sefydlu trefniadau ar gyfer hyfforddi Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant o 2012 ymlaen. Yng Nghymru, drwy'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) byddem hefyd yn awyddus i adeiladu ar broses gweithredu'r rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol ar ddulliau asesu tystiolaeth, dadansoddi a chynllunio gyda phlant a theuluoedd. Mae'r Bwrdd Gwella i Blant wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu (ynghyd â mabwysiadu a gwaith sy'n gysylltiedig ag adolygiad Munro) yn y rhaglenni gwaith y maent yn eu cyflwyno ar ran y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant o fis Ebrill nesaf ymlaen.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Cyfraith Gyhoeddus **Rôl y llys**			
60, 61, 62	Rhaid i lysoedd barhau i chwarae rhan ganolog mewn cyfraith gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Dylai llysoedd ganolbwyntio o'r newydd ar yr ystyriaethau craidd o ba un a fydd y plentyn yn byw gyda rhieni, neu aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, neu'n cael ei symud i fod o dan ofal yr awdurdod lleol. Wrth benderfynu a yw gorchymyn gofal er y budd gorau i blentyn, ni fydd angen fel arfer i'r llys graffu ar holl fanylion cynllun gofal yr awdurdod lleol ar gyfer plentyn. Yn hytrach dylai'r llys ystyried elfennau canolog neu hanfodol cynllun y plentyn yn unig. Rydym yn cynnig mai'r rhain yw: cynllun i ddychwelyd y plentyn i'w deulu; cynllun i leoli (neu ystyried lleoli) plentyn gyda theulu neu ffrindiau; trefniadau gofal eraill; a cyswllt â'r teulu biolegol i'r graddau o benderfynu a ddylai fod yn rheolaidd, yn gyfyngedig neu'n ddim.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno ei bod yn bwysig bod y llysoedd yn dal i ystyried elfennau craidd cynlluniau gofal plant cyn gwneud gorchmynion gofal. Lle bo'r manylion yn hollbwysig er mwyn penderfynu pwy ddylai ofalu am y plentyn, dylai'r llysoedd hefyd ddal i allu ystyried a thrafod hyn yn llawn. Fodd bynnag, mae manylion cynlluniau gofal yn aml yn newid dros gyfnod mewn ymateb i newid yn anghenion plant, ac yn y rhan fwyaf o achosion mae'n gwneud synnwyr i'r manylion gael eu gadael i'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb parhaus dros y cynllun. Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth i wneud y gwahaniaeth hwn rhwng rôl y llysoedd a'r awdurdodau lleol mewn cynlluniau gofal plant yn glir. Bydd y gwaith parhaus i gryfhau ansawdd cynlluniau gofal awdurdodau lleol ac ymarfer gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol yn bwysig er mwyn cefnogi'r newid arfaethedig hwn. Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod fel rhan o raglen diwygio gweithlu gofal cymdeithasol y Llywodraeth ac yn gysylltiedig ag Adolygiad Munro a *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn ymatebion i argymhellion eraill, i ategu hyn, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid sectorau i ddatblygu mwy o hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Bydd yn parhau i hybu rôl ehangach Swyddog Adolygu Annibynnol yr awdurdod lleol wrth graffu ar gynlluniau gofal. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd gwaith parhaus i ddarparu mwy o ffydd yn rôl graffu'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn Lloegr (gweler argymhellion 78, 79 ac 80) yn bwysig dros ben.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
63	Dylai'r Llywodraeth ymgynghori ynghylch a ddylid diwygio adran 34 o Ddeddf Plant 1989 i hyrwyddo cyswllt rhesymol â siblingiaid, ac i ganiatáu i siblingiaid wneud cais am orchmynion cyswllt heb ganiatâd y llys.	Derbyn (yn rhannol)	Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod problemau'n gallu codi â chyswllt siblingiaid ac y bydd cadw cyswllt â siblingiaid yn bwysig i blant mewn gofal. Ond ceir darpariaeth ddeddfwriaethol glir yn barod yn Neddf Plant 1989 ac mewn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliadau, ac Adolygu Achosion a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Llywodraeth wedi canolbwyntio o'r newydd ar Blant mewn Gofal. Ar 31ain Hydref 2011[37] nododd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i drawsnewid y system gofal a gwella cyfleoedd i blant agored i niwed. Bydd mater sut i wella cyswllt rhwng siblingiaid yn rhan bwysig o'r trafodaethau ynglŷn â sut i wella'r system gofal. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid, fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, a Chynghorau Plant mewn Gofal, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol a'u hawliau o ran cyswllt siblingiaid, a lledaenu'r arferion gorau i bob rhan o'r wlad. Yng Nghymru, mae gwella diogelwch a lles plant a phobl ifanc, gwella'r system gofal a chefnogi teuluoedd cymhleth, yn ganolog i'n fframwaith *Gwasanaeth Cymdeithasol Cynaliadwy* yng Nghymru.

37 http://www.number10.gov.uk/news/pm-launches-adopting-and-fostering-campaign/

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Y berthynas rhwng llysoedd ac awdurdodau lleol			
64, 65, 66	Dylid cael deialog ar lefel genedlaethol a lleol rhwng y farnwriaeth ac awdurdodau lleol. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu hwyluso hyn. Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gwrdd yn rheolaidd i drafod materion cyffredin. Mae angen i awdurdodau lleol a'r farnwriaeth drafod amrywioldeb arferion awdurdodau lleol mewn cysylltiad â phenderfyniadau trothwy a phryd y byddant yn sbarduno ceisiadau gofal. Mae hyn yn galw hefyd am drafodaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Dylai'r Llywodraeth hybu'r trafodaethau hyn drwy raglen barhaus o ddadansoddi ac ymchwil. Dylai canllawiau diwygiedig *Working Together* a'r canllawiau perthnasol yng Nghymru dynnu sylw at bwysigrwydd graddfeydd amser plant a'r defnydd priodol o achosion llys wrth gynllunio ar gyfer plant ac mewn gweithgarwch amddiffyn plant strwythuredig.	Derbyn	Ceir tystiolaeth dda o fanteision deialog reolaidd a dysgu ar y cyd rhwng y farnwriaeth ac awdurdodau lleol. Bydd y Llywodraeth yn cynorthwyo Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant a Llywydd yr Adran Deulu â'r gwaith o weithredu'r argymhellion hyn. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y byddai'n werth tynnu sylw at bwysigrwydd graddfeydd amser plant yng nghanllawiau diwygiedig *Working Together*, ond bydd yn rhaid i hyn adlewyrchu'r flaenoriaeth sydd hefyd yn cael ei rhoi i gynhyrchu dull gweithredu wedi'i gwtogi, sy'n llai rhagnodol.
Rheoli achosion			
67	[gweler argymhelliad 46]		

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
68, 69, 70, 71	Dylai'r Llywodraeth ddeddfu i ddarparu pŵer i osod terfyn amser ar achosion gofal. Dylid pennu'r terfyn amser mewn deddfwriaeth eilaidd er mwyn darparu hyblygrwydd. Dylid cael darpariaethau trosiannol. Dylid gosod y terfyn amser ar gyfer cwblhau achosion gofal a goruchwyliaeth ar chwe mis. Cyfrifoldeb barnwr y treial fyddai bodloni'r terfyn amser. Byddid yn caniatáu estyniadau i'r terfyn amser o chwe mis fel eithriadau yn unig. Pe bai barnwr treial yn bwriadu ymestyn achos y tu hwnt i chwe mis, byddai angen iddo ofyn am gytundeb y Barnwr Teulu Dynodedig / Barnwr Llywyddol Teuluol perthnasol fel y bo'n briodol. Rhaid i farnwyr osod amserlenni pendant ar gyfer achosion. Wrth wneud penderfyniadau am amserlennu a rheoli achosion, rhaid canolbwyntio ar y plentyn a chyfeirio'n benodol at anghenion a graddfeydd amser y plentyn. Mae dadl gref dros gydnabod y cyfrifoldeb hwn yn benodol mewn deddfwriaeth sylfaenol.	Derbyn (yn rhannol)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod yn rhaid i achosion gael eu cynnal o fewn graddfeydd amser sy'n unol ag anghenion y plentyn ac rydym yn cefnogi argymhelliad y Panel. Byddai ychwanegu terfyn amser disgwyliedig yn y ddeddfwriaeth yn anfon neges glir a diamwys i bob rhan o'r system bod oedi hir yn annerbyniol. Nid yw newidiadau i ganllawiau na chynlluniau eraill wedi llwyddo i leihau'r oedi, nac wedi ei rwystro rhag cynyddu. Bydd pennu nod clir fel hyn yn darparu'r canolbwynt sydd ei angen. Mae'r Llywodraeth felly'n derbyn yr argymhelliad a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth cyn gynted ag y bo modd. Roedd yr Adolygiad yn cydnabod, fodd bynnag, na ellid cyflwyno terfyn amser o chwe mis ar unwaith. Bydd angen gwaith manwl i ystyried trefniadau trosiannol er mwyn canfod pa mor fuan y gellid cyflwyno'r terfyn amser. Byddai'r cyfleuster i farnwyr ymestyn achosion lle bo anghenion plant yn galw am hynny yn rhoi disgresiwn i farnwyr mewn achosion eithriadol. Mae'r Llywodraeth yn credu bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro â'r egwyddor mai anghenion plant yw'r brif ystyriaeth bob amser. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud, a rhagor o sylw'n cael ei roi, yn fwyaf penodol, i ddatblygu'r prosesau a'r rhesymau dros ymestyn achosion. Fodd bynnag, byddai cynnig y Panel y dylai uwch farnwr gytuno ar estyniadau tu hwnt i'r terfyn amser yn arwain at annibyniaeth farnwrol a gallai achosi rhagor o oedi. Am y rhesymau hyn, nid yw'r llywodraeth yn derbyn y rhan hon o argymhelliad y Panel, ond er mwyn sicrhau bod tryloywder ynghylch unrhyw benderfyniad i ymestyn achos y tu hwnt i'r terfyn chwe mis, bydd y rhesymau dros yr estyniad yn cael eu cofnodi a'u nodi yn y llys.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
72, 73, 76, 28	Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn sylfaen gadarn ar gyfer dull o reoli achosion sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Nid yw'n dderbyniol bod anghysondeb wrth ei weithredu rhwng llysoedd ac rydym yn annog y farnwriaeth uwch i fynnu bod pob llys yn ei ddilyn. Bydd angen ailfodelu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus er mwyn cyflwyno terfynau amser mewn achosion. Dylai'r farnwriaeth ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid ar yr ailfodelu hwn. Dylid profi dulliau newydd fel rhan o'r broses hon. Dylai'r farnwriaeth, dan arweiniad swyddfa'r Llywydd ac awdurdodau lleol drwy eu cyrff cynrychioladol, roi ystyriaeth frys i'r safonau y dylid eu gosod ar gyfer dogfennau llys, a dylai gylchredeg enghreifftiau o'r arferion gorau. Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth adolygu a chynllunio ynghylch sut i reoli achosion mewn llysoedd mewn modd sy'n gyson effeithiol.	Derbyn (â chytundeb y Llywydd a'r farnwriaeth deuluol uwch)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad ynglŷn â'r angen am fwy o effeithiolrwydd wrth i achosion fynd drwy'r system llysoedd. Cydnabyddir yn barod bod rheoli achosion barnwrol yn effeithiol o'r pwys mwyaf er mwyn sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi ac mae GLlTEM yn gweithio er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i'r farnwriaeth i symud achosion yn eu blaenau lle mae adnoddau ar gael i wneud hynny. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â Llywydd yr Adran Deulu mai'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, os caiff ei ddefnyddio'n iawn, yw'r arf rheoli allweddol er mwyn galluogi'r farnwriaeth i fynd i'r afael ag oedi. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r Amlinelliad wedi'i sefydlu'n gyson ar sail ranbarthol na chenedlaethol. Mae'r Llywodraeth yn falch felly bod argymhellion yr Adolygiad yn cefnogi camau i fynd i'r afael â hyn, a byddwn yn gweithio gyda'r Llywydd er mwyn dal i sicrhau mwy o gydymffurfiad. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai unrhyw newid i'r Amlinelliad i adlewyrchu terfyn amser o chwe mis fod yn seiliedig ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn sicrhau bod y prosesau dan sylw, gan gynnwys y rhai ar gyfer ymestyn achosion y tu hwnt i'r terfyn amser, yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ystyried barn y farnwriaeth a gweithwyr proffesiynol Cyfiawnder Teulu. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu cyn gynted ag y bydd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diwygiadau'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu yn gliriach.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
74	Dylid diwygio'r gofyniad i adnewyddu Gorchmynion Gofal Dros Dro ar ôl wyth wythnos ac wedyn bob pedair wythnos. Dylid caniatáu disgresiwn i farnwyr roi gorchmynion dros dro am y cyfnod y maent yn ei ystyried orau hyd at gyfnod hwyaf o chwe mis ac nid ymhellach na'r terfyn amser ar gyfer yr achos. Dylid clymu pŵer y llys i adnewyddu wrth ei bŵer i ymestyn achos y tu hwnt i'r terfyn amser.	Derbyn	Byddai'r cynnig hwn ar gyfer newid yn helpu i gael gwared ar gyfyngiad diangen ar allu barnwyr i bennu Gorchmynion Gofal Dros Dro am gyfnod sy'n briodol i'r achos ac i anghenion y plentyn; byddai hefyd yn cael gwared ar wrandawiadau ychwanegol a phrosesau gweinyddol a phrosesau llys diangen. Efallai na fydd y mesur yn lleihau oedi ynddo'i hun, ond drwy ryddhau adnoddau gweinyddol dylai helpu i sicrhau bod modd gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd yn y system. Rhagwelir y byddai'r newid yn caniatáu i'r barnwr bennu gofynion yn ymwneud â hyd ac adnewyddu ar gyfer y gorchymyn gofal dros dro sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn hyd at uchafswm o chwe mis (i gyd-fynd â chynnig terfyn amser yr Adolygiad). Bydd y Llywodraeth yn ceisio deddfu ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd.
75	Dylid dileu'r gofyniad i baneli mabwysiadu awdurdodau lleol ystyried addasrwydd plentyn i'w fabwysiadu lle mae achos y plentyn hwnnw gerbron llys.	Derbyn	Mae tystiolaeth o ymgynghoriadau'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu yn cadarnhau y gall oedi ddigwydd mewn achosion plant wrth aros i baneli mabwysiadu fynegi eu barn. Gall oedi fod yn andwyol iawn i siawns plant i gael eu mabwysiadu, a chan fod yn rhaid i'r llysoedd graffu'n annibynnol ar yr holl dystiolaeth p'un bynnag, mae'r Llywodraeth yn derbyn dadl yr Adolygiad dros gyflwyno'r newid hwn er mwyn dileu'r risg o ragor o oedi. Byddai'r newid yn cael ei roi ar waith drwy ddiwygiad i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Arferion awdurdodau lleol			
77, 94, 97	Rydym yn cymell defnyddio'r Llythyr Cyn Achos. Rydym yn argymell adolygu ei weithrediad pan fydd ymchwil ar gael ynghylch ei effaith. Dylid cael cydnabyddiaeth fwy eang i fanteision Cynadleddau Grŵp Teuluoedd a dylid ystyried eu defnyddio cyn achosion llys. Mae angen mwy o ymchwil i'r defnydd gorau ohonynt, eu manteision a'r costau. Dylid datblygu cynigion i dreialu dulliau newydd o gynorthwyo rhieni yn ystod achosion llys ac wedyn.	Derbyn mewn egwyddor, yn amodol ar ganlyniadau gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd (ar y llythyr cyn achos) a gwaith pellach (ar y modelau cefnogi rhianta presennol)	Disgwylir y bydd astudiaeth ymchwil o weithrediad ac effaith prosesau cyn achos awdurdodau lleol, gan gynnwys y llythyr cyn achos, yn cael ei chyhoeddi yn 2012. Bydd y Llywodraeth yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth hon pan fyddant ar gael. Defnyddir Cynadleddau Grŵp Teuluoedd gan Awdurdodau Lleol mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gallai ymchwil i weld pa rai o nodweddion Cynadleddau Grŵp Teuluoedd sy'n cynnig y budd mwyaf yng nghyd-destun achosion gofal fod yn ddefnyddiol. Gellid ystyried hyn fel rhan o'r rhaglen ehangach o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu. O ran cefnogaeth rhianta ar ôl achos, mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen gwneud mwy. Lle mae gan y rhieni anghenion cymhleth, mae yna eisoes ymyriadau amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gall Awdurdodau Lleol eu defnyddio. Y peth pwysig yw sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am y rhain ac yn eu defnyddio a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud, drwy drafod a chydweithio gyda'r sector, fel rhan o'r pecyn ehangach o ddatblygiad a hyfforddiant gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r llys sy'n cael ei gynnig yn yr ymateb hwn. Mae dulliau eraill llai dwys o gefnogi rhieni wedi cael eu datblygu a'u cynnig drwy'r sector gwirfoddol a chymunedol. Nid yw'r sylfaen dystiolaeth ar y rhain mor glir a bydd angen i'r Llywodraeth ymchwilio i hyn. Gallai rhagor o dreialu fod yn fuddiol ond bydd angen i ni ystyried y dystiolaeth yn gyntaf. Ceir datblygiadau cysylltiedig hefyd i raglenni cefnogi rhieni yng Nghymru.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
78, 79, 80	Dylai awdurdodau lleol adolygu gweithrediad eu gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau ei fod yn effeithiol. Yn benodol, dylent sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau ynghylch llwythi achosion. Dylai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Arweiniol dros Blant gael adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol ar y gwaith a gyflawnwyd a'i ganlyniadau. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried adroddiadau o'r fath. Mae angen cysylltiadau effeithiol rhwng y llysoedd a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ac mae angen i'r berthynas waith rhwng y gwarcheidwad a'r Swyddog Adolygu Annibynnol fod yn gryfach.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â byrdwn y cynigion hyn – maent yn gwbl gyson â chanllawiau a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar rôl y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn Lloegr. Byddant yn helpu i roi mwy o hwb i amcanion presennol y Llywodraeth yn y maes hwn. Bydd y Llywodraeth yn ceisio gweithredu'r cynigion drwy ehangu/adeiladu ar y rhaglen bresennol o ddatblygu ymarfer da, gan gydweithio â'r sector.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Tystion arbenigol			
81, 82, 84	Dylai deddfwriaeth sylfaenol ategu bod rhaid dal sylw wrth gomisiynu adroddiad gan arbenigwr ar effaith yr oedi ar les y plentyn. Dylai fynnu hefyd mai dim ond pan fo tystiolaeth arbenigol yn angenrheidiol i ddatrys yr achos y dylid ei chomisiynu. Byddai angen diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Teulu i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Ni ddylai'r llys ofyn am ddeunydd gan dyst arbenigol oni bai fod y wybodaeth honno heb fod ar gael, ac na ellir trefnu iddi fod ar gael, oddi wrth bartïon sydd eisoes yn gysylltiedig â'r achos. Dylid defnyddio gweithwyr cymdeithasol annibynnol fel eithriad yn unig. Dylai barnwyr lywio'r broses o gytuno ar dystion arbenigol a'u cyfarwyddo fel rhan sylfaenol o'u cyfrifoldeb dros reoli achosion. Dylai barnwyr nodi'r cwestiynau y dylai'r tyst arbenigol ganolbwyntio arnynt yn y gorchymyn sy'n rhoi caniatâd i gomisiynu'r tyst arbenigol.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag asesiad yr Adolygiad bod gormod o achosion lle mae arbenigwyr yn cael eu comisiynu i ddarparu asesiadau nad ydynt o lawer o fudd i'r achos ac sy'n arwain at oedi diangen. Mae'r Llywodraeth felly'n derbyn argymhellion yr Adolygiad. Bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ystyried effaith oedi ar y plentyn, ac a allant gael gwybodaeth gan bartïon sydd eisoes yn gysylltiedig â'r achos, wrth gomisiynu tystiolaeth arbenigol mewn achos teulu, yn cael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo modd. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cyfnerthu ac yn adeiladu ar y gofynion sydd yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu a'r canllawiau sy'n bodoli'n barod. Yn y cyfamser, bydd y Llywodraeth yn gofyn i'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu adolygu'r Rheolau presennol a'r canllawiau ategol, er mwyn nodi a oes angen rhagor o newidiadau yn y meysydd hyn i gefnogi argymhellion yr Adolygiad.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
83, 86, 87	Dylid comisiynu ymchwil i ystyried gwerth asesiadau preswyl o rieni. Dylai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol goladu data'n rheolaidd ar arbenigwyr fesul achos ac yn ôl y math o arbenigwr, yr amser a gymerir, y gost ac unrhyw ffactor perthnasol arall. Dylai'r data hyn gael eu casglu yn ôl llys ac ardal. Rydym yn argymell y dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gomisiynu astudiaethau o'r adroddiadau gan dystion arbenigol a gyflenwyd gan wahanol broffesiynau.	Derbyn mewn egwyddor (yn amodol ar gyllid)	Mae'r Llywodraeth yn derbyn beirniadaeth yr Adolygiad ynglŷn ag ansawdd gwybodaeth sydd ar gael er mwyn llunio polisïau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod angen gwaith ymchwil pellach a gwell yn y maes hwn, gan gynnwys ymchwil i ansawdd adroddiadau arbenigwyr, a gwerth asesiadau preswyl o allu rhianta o'u cymharu â mathau eraill o asesiadau. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyflwyno system gwybodaeth rheoli newydd, sydd wedi cael ei chynllunio er mwyn casglu ystod lawer ehangach o ddata am wasanaethau cymorth cyfreithiol, gan gynnwys data ar arbenigwyr sy'n cael eu hariannu drwy gymorth cyfreithiol. Dan y cynlluniau presennol, ni fyddai'n gallu adrodd ar y defnydd o arbenigwyr a wneir gan lys.
85, 88	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu gymryd cyfrifoldeb am waith gyda'r Adran Iechyd ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd a chyflenwad y gwasanaethau gan dystion arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys treialu syniadau newydd, rhannu'r arferion gorau ac adolygu ansawdd. Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu ddatblygu safonau ansawdd cytûn ar gyfer tystion arbenigol yn y llysoedd teulu.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn derbyn pryder yr Adolygiad ynglŷn ag ansawdd adroddiadau sy'n cael eu darparu i'r llysoedd gan dystion arbenigol, a'r diffyg safonau ansawdd cytûn. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai arwain y gwaith o ddatblygu safonau priodol. Bydd angen i'r Llywodraeth ddatblygu safonau ansawdd drwy ymgynghori â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ac awdurdodau lleol, yn ogystal â grwpiau o arbenigwyr. Mae llawer o'r arbenigwyr sy'n cael eu comisiynu mewn achosion teulu sy'n rhan o gyfraith gyhoeddus yn weithwyr proffesiynol meddygol, felly bydd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gyfraniad pwysig i'w wneud hefyd. Yn yr hirdymor, dylai dyfodol y gwaith hwn gael ei bennu fel rhan o'r adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu'r system Cyfiawnder Teulu ar gyfer y dyfodol, cyn gynted ag y bydd y rhaglen ddiwygio wedi cael ei gweithredu i raddau helaeth.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
89	Dylid symud ymlaen â chynllun peilot pellach ar gyfer timau tystion arbenigol amlddisgyblaethol, gan ddatblygu'r hyn a ddysgwyd yn y cynllun peilot gwreiddiol.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod y dull cyffredinol a brofwyd yn y cynllun peilot ar gyfer timau amlddisgyblaethol yn cynnig y potensial i gynnal cyflenwad effeithiol o arbenigwyr â chymwysterau priodol, gan leihau oedi mewn achosion a sicrhau gwell gwerth am arian yn gyffredinol. Er hyn, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gwendidau yn y dull a fabwysiadwyd yn ystod y cynllun peilot gwreiddiol, ac yn croesawu argymhellion yr Adolygiad er mwyn mynd i'r afael â hwy. Oherwydd hyn, mae'r Llywodraeth yn derbyn argymhelliad yr Adolygiad i gynnal cynllun peilot newydd ar gyfer y dull tîm amlddisgyblaethol. Bydd y gwaith yn dechrau yn 2012.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
90	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu adolygu'r mecanweithiau sydd ar gael i dalu tystion arbenigol, a dylai ailystyried maes o law a ellid talu arbenigwyr yn uniongyrchol.	Derbyn	Dan y trefniadau presennol, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gwneud contractau gyda chyfreithwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Y cyfreithiwr, yn hytrach na'r Comisiwn, sy'n rhoi cyfarwyddyd, ac yn gwneud contract gyda'r tyst arbenigol, ac sy'n gyfrifol, ymhlith materion eraill, am dalu iddo. Er hyn, mae telerau safonol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi y dylai cyfreithwyr dalu costau yn fuan, ac yn y tymor byr, bydd y Llywodraeth yn ystyried gyda'r Comisiwn pa gamau pellach y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y rhwymedigaethau hyn mewn contractau yn cael eu bodloni. Yn y tymor hwy, bydd y Llywodraeth yn ystyried a fyddai'n briodol i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wneud contractau gydag arbenigwyr yn uniongyrchol, a thalu iddynt, yn hytrach na gweithredu drwy gyfreithwyr. Wrth wneud hyn, bydd angen i ni ystyried canlyniadau cynllun peilot y tîm amlddisgyblaethol, ynghyd â'r camau eraill sy'n cael eu nodi er mwyn gwella ansawdd arbenigwyr mewn achosion gofal, ac effaith diwygiadau ehangach ar gyflawni gwasanaethau cyfreithiol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Cynrychiolaeth plant			
91	Dylid cadw'r model tandem gan flaenoriaethu a dyrannu adnoddau'n ofalus.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod y model tandem yn dal yn ffordd bwysig o sicrhau bod dymuniadau, anghenion a theimladau plant yn gallu cael eu deall a'u mynegi'n annibynnol yn y llys. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno bod yn rhaid i wasanaethau gwaith cymdeithasol llysoedd gael eu rheoli'n effeithlon a bod yn rhaid i'w mewnbwn fod yn briodol i anghenion yr achos er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynrychioli'n briodol mewn achosion teulu perthnasol. Mae'r Adolygiad wedi nodi beth yn ei farn ef yw prif elfennau dull gweithredu cymesur. Gan ystyried y farn hon, ac mewn cydweithrediad â Cafcass, Cafcass Cymru a'r farnwriaeth, bydd y Llywodraeth yn ystyried pa gamau eraill y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r model tandem, â'r adnoddau sydd ar gael, ac yn unol â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'n hanfodol bod y llysoedd yn cael cyngor da a bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth a'r gynrychiolaeth y mae ganddynt hawl iddi.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
92	Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r fantais o ddefnyddio gwarcheidwaid cyn achosion.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Gallai cynllun peilot cyn achosion Cafcass, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, fod yn gyfle gwerthfawr i ddeall sut y gall cydweithredu helpu i gryfhau gwaith cyn achosion awdurdodau lleol, a gallai ddarparu gwybodaeth bwysig hefyd i Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass, Cafcass Cymru a'r system yn gyffredinol ynglŷn â sut y gellir gwneud gwaith i fynegi anghenion a dymuniadau plant yn fwy effeithiol. Bydd gwerthusiad terfynol o'r cynllun peilot, a fydd yn dod i ben ym Mai 2012, ar gael erbyn haf 2012. Bydd y Llywodraeth yn ystyried bryd hynny sut y gellid adeiladu ar y canfyddiadau. Bydd y Llywodraeth yn dal i fonitro cynnydd yn y cyfamser, gan sicrhau bod gwersi sy'n cael eu dysgu'n gynnar yn cael eu bwydo i mewn i waith perthynol ar ymarfer gofal cymdeithasol a datblygu'r model tandem, yr ymdrinnir â hwy mewn rhan arall o'r ymateb hwn.
93	Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r fantais o ddatblygu model tandem mewnol. Dylai'r effeithiau ar argaeledd cyfreithwyr lleol i gynrychioli rhieni fod yn ffactor penodol.	Derbyn mewn egwyddor (ond ystyried yn ofalus yr effeithiau posibl ar y farchnad gyfreithiol leol a materion contractau cymorth cyfreithiol)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y byddai'n werth ystyried treialu hyn, gan fod y model hwn wedi gweithio'n dda ar gyfer achosion yr Uchel Lys. Fodd bynnag, bydd yn bwysig rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith bosibl ar farchnadoedd cyfreithiol lleol ac ystyried materion contractau cymorth cyfreithiol yn ofalus. Bydd y Llywodraeth yn asesu dichonolrwydd unrhyw gynllun peilot a'i raddfa amser bosibl erbyn Haf 2012, cyn gynted ag y mae'r sefyllfa ynglŷn â chontractio a thendro am gontractau cymorth cyfreithiol yn gliriach, ar yr amod bod y Bil Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd ac yn cael Cydsyniad Brenhinol yn Ebrill 2012.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Dewisiadau yn lle achosion llys confensiynol			
94, 97	[gweler argymhelliad 77]		
95	Dylid sefydlu cynllun peilot ar y defnydd o ddulliau cyfryngu ffurfiol mewn achosion cyfraith gyhoeddus.	Derbyn	Bydd y Llywodraeth yn nodi meysydd lle mae cyfryngu ffurfiol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn achosion cyfraith gyhoeddus ac yn gweithio gyda'r Cyngor Cyfryngu Teuluol, GLlTEM, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, Cafcass, Cafcass Cymru a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn datblygu dewisiadau ar gyfer cynllun peilot. Rhoddir ystyriaeth ofalus i adegau pan allai cyfryngu fod yn briodol yn y mathau hyn o achosion.
96	Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Llys Achosion Teuluol Llundain Fewnol yn dangos cryn addewid. Dylid ehangu'r defnydd ohono dan gyfyngiadau er mwyn datblygu'r sylfaen dystiolaeth.	Angen rhagor o waith	Rydym yn cytuno bod y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn dangos addewid. Ystyrir ehangu'r defnydd ohono yng nghyd-destun y gwerthusiad sy'n cael ei wneud o'r cynllun peilot yn Llundain, ond mae'n dibynnu a ellir dod o hyd i fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer y rhaglen.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Y Gyfraith Breifat **Gwneud i gyfrifoldeb rhiant weithio**			
98	Dylai llywodraeth ddod o hyd i ffyrdd o gryfhau'r pwysigrwydd o gael dealltwriaeth dda o gyfrifoldeb rhiant mewn gwybodaeth y mae'n ei rhoi i rieni.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw rhieni'n ymwybodol bob amser o'r cysyniad o gyfrifoldeb rhiant, na'i arwyddocâd, nac o'r effaith niweidiol y mae gwrthdaro hirfaith rhwng rhieni'n ei gael ar blant. Byddai mwy o ddealltwriaeth o gyfrifoldebau rhiant tuag at blentyn yn ôl y gyfraith, ac o bwysigrwydd canolbwyntio ar anghenion emosiynol ac ymarferol plentyn, yn cefnogi ymdrechion ehangach i helpu rhieni sydd wedi gwahanu i ddod i gytundeb drostynt eu hunain ynglŷn â threfniadau gofal ar gyfer eu plant, heb orfod mynd i'r llys. Bydd y Llywodraeth felly'n ystyried beth yw'r ffordd orau o gynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb rhieni ac o gynorthwyo rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eu plentyn, o ran amseriad a sianeli cyfathrebu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
99	Ni ddylid cyflwyno deddfwriaeth sy'n creu neu'n arwain at y perygl o greu'r canfyddiad bod gan rieni hawl i gael amser sylweddol wedi'i rannu neu amser cyfartal ar gyfer y ddau riant.	Angen ystyriaeth bellach	Mae'r Llywodraeth yn cefnogi barn yr Adolygiad bod cadw'r berthynas â'r ddau riant o fudd i'r rhan fwyaf o blant yn llwyr, ac y dylid annog rhannu cyfrifoldeb rhieni os yw hynny er budd gorau i'r plentyn ac yn ddiogel. Dylai cynigion yr Adolygiad ar gyfer gwell addysg, gwybodaeth a mynediad i rieni at wasanaethau datrys anghydfodau gefnogi'r amcan hwn. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr ystyriaeth ofalus a roddwyd gan adolygiad Norgrove i rôl deddfwriaeth wrth gefnogi rhannu cyfrifoldebau rhianta drwy newid agweddau rhieni, a hynny'n cael ei ategu gan neges glir y bydd y llysoedd yn disgwyl i'r ddau riant ymwneud â magwraeth plentyn, oni bai fod rhesymau eithriadol lle nad yw hyn yn bosibl. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol iawn o brofiad y ddeddfwriaeth rhannu cyfrifoldeb rhieni yn Awstralia yn ddiweddar a'r anawsterau a all godi. Ar ôl pwyso a mesur y sefyllfa'n ofalus, mae'r Llywodraeth yn credu y gallai deddfwriaeth fod â rhan i'w chwarae yn y broses o gefnogi rhannu cyfrifoldeb rhieni a bydd yn ystyried dewisiadau deddfwriaethol er mwyn annog y ddau riant i chwarae rhan cyn llawned ag sy'n bosibl ym magwraeth eu plant. Wrth ddatblygu cynigion, bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i osgoi'r rhwystrau a welwyd wrth weithredu'r ddeddfwriaeth yn Awstralia.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
100	Dylai'r angen barhau i neiniau a theidiau wneud cais am ganiatâd y llys cyn gwneud cais am gyswllt.	Derbyn	Ar hyn o bryd, pan mae'n ofynnol i deidiau a neiniau wneud cais am ganiatâd y llys i gychwyn achos, a phan fo caniatâd yn cael ei roi, dim ond un ffi llys sy'n daladwy. Mae'r Llywodraeth yn credu bod hyn yn rhesymol. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â chasgliadau'r Adolygiad y dylai'r angen i wneud cais am ganiatâd barhau oherwydd mae'n ffordd bwysig o ddiogelu plant a'u teuluoedd. Mae hyn yn gydnaws â'r egwyddor mai lles y plentyn yw prif ystyriaeth y llys. Er hyn, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod plant yn cael perthynas ystyrlon ag aelodau o'r teulu sy'n bwysig iddynt ar ôl i deulu wahanu, lle bo hynny er budd i'r plentyn ac yn ddiogel. Fel arfer da, dylid ystyried cefnogi perthynas barhaus plentyn â theidiau a neiniau ac aelodau o'r teulu ehangach wrth wneud trefniadau ar gyfer dyfodol plentyn. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi argymhelliad yr Adolygiad y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y broses o lunio Cytundebau Rhianta o ran pwysigrwydd perthynas plant ag aelodau eraill o'r teulu ac y bydd yn mynd yn bellach er mwyn sicrhau bod perthynas plentyn â theidiau a neiniau hefyd yn cael ei hystyried yn y dosbarthiadau rhianta pwrpasol ar gyfer rhieni sy'n gwahanu.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
101, 102	Dylid annog rhieni i ddatblygu Cytundeb Rhianta i nodi trefniadau ar gyfer gofalu am eu plant ar ôl gwahanu. Dylai llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gallai Cytundeb Rhianta wedi'i lofnodi fod â phwysau fel tystiolaeth mewn unrhyw anghydfod rhwng rhieni wedyn.	Derbyn	Gall achosion i ddatrys anghydfodau teuluol fod yn hirfaith, a gallant fod yn niweidiol i blant os oes llawer o wrthdaro rhwng rhieni. Mae defnyddio cytundebau rhianta fel ffordd o gynorthwyo rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eu plentyn, a chytuno ar drefniadau ymarferol ar gyfer gofal o ddydd i ddydd, yn gallu bod o fudd. Ein bwriad yw sicrhau y bydd rhieni'n cael eu cefnogi i ddod i gytundebau o'r fath drwy wasanaethau datrys anghydfod, gan gynnwys rhaglenni rhianta wedi'u targedu, fel bod modd datrys cynifer o anghydfodau ag sy'n bosibl heb fod angen i'r llys ymyrryd. Byddwn hefyd yn gweithio er mwyn integreiddio gwasanaethau lleol i roi gwell cefnogaeth i rieni sydd wedi gwahanu neu sydd yn gwahanu, fel bod rhieni'n cael mynediad at ystod o wasanaethau priodol pan mae arnynt eu hangen. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi barn yr Adolygiad bod angen rhoi llai o bwyslais ar yr hyn y mae rhieni'n eu gweld fel 'hawliau' i gael cysylltiad â'u plant. Mae'r Llywodraeth am i rieni ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau sydd ganddynt tuag at eu plant, a beth y gall plant ei ddisgwyl gan eu rhieni o ran gofal a diwallu eu hanghenion. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad i ystyried sut y gallai Cytundeb Rhianta wedi'i lofnodi fod â phwysau fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys dilynol. Bydd angen i'r Llywodraeth benderfynu sut y bydd angen i drefniadau a phwerau'r llys newid er mwyn cyflawni hyn a sicrhau nad oes gwrthdaro â'r egwyddor mai lles y plentyn ddylai fod yn brif ystyriaeth i'r llys.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
103, 104	Dylai'r llywodraeth ddatblygu 'gorchymyn trefniadau plant', a fyddai'n nodi trefniadau ar gyfer magu plentyn pan fydd angen penderfyniad gan lys ynghylch anghydfodau sy'n ymwneud â gofal plant. Dylai llywodraeth ddiddymu'r ddarpariaeth ar gyfer gorchmynion preswylio a chyswllt yn Neddf Plant 1989.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn gweld gwerth mewn newid pwyslais gorchmynion llys er mwyn canolbwyntio ar drefniadau ymarferol ar gyfer gofalu am y plentyn a thynnu'r pwyslais cyfredol ar y labeli 'cyswllt' a 'phreswylio'. Mae hyn yn gyson â mesurau ehangach a gynigiwyd yn yr adolygiad er mwyn canolbwyntio'n llwyr ar anghenion y plentyn drwy gydol y broses o ddatrys anghydfod. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd.
105	Dylid cadw gorchmynion camau gwaharddedig a gorchmynion mater penodol ar gyfer materion ar wahân lle nad yw gorchymyn trefniadau plentyn yn briodol.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod rheswm da dros gadw gorchmynion materion penodol, a gorchmynion camau gwaharddedig, ac mae'n cydnabod y bydd y rhan fwyaf o'r anghydfodau'n cael eu datrys drwy sianeli gwahanol. Defnyddir gorchmynion materion penodol a gorchmynion camau gwaharddedig i ddatrys materion llai cyffredin sy'n llai tebygol o ymwneud â gofal y plentyn o ddydd i ddydd. Bydd cadw'r gorchmynion hyn yn helpu i sicrhau bod cytundebau rhianta ac ystyriaeth o 'Orchymyn Plentyn' yn parhau i ganolbwyntio ar drefniadau gofal y plentyn o ddydd i ddydd.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
106	Dylai'r gorchymyn trefniadau plentyn newydd fod ar gael i dadau sydd heb gyfrifoldeb rhiant, yn ogystal â'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant eisoes, ac i aelodau o'r teulu ehangach gyda chaniatâd y llys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai unrhyw orchymyn newydd sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer gofalu am blentyn fod ar gael i dadau, pa un a oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant ai peidio, yn ogystal ag aelodau o'r teulu ehangach, lle mae'r llys wedi rhoi caniatâd. Bydd yn gyson â'r trefniadau presennol ar gyfer cymhwyster i wneud cais am orchymyn cyswllt neu breswylio dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989. Mae'r sefyllfa hon yn unol â mesurau ehangach er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cadw'i le canolog mewn prosesau ar gyfer datrys anghydfodau cyfraith teulu preifat.
107, 108	Lle byddai angen cyfrifoldeb rhiant ar y tad i gyflawni'r gofyniad am ofal sydd wedi'i nodi yn y gorchymyn, byddai'r barnwr hefyd yn gwneud gorchymyn cyfrifoldeb rhiant. Lle mae'r gorchymyn yn mynnu bod aelodau o'r teulu ehangach yn gallu arfer cyfrifoldeb rhiant, byddai'r llys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl y dylai'r person hwnnw fod â chyfrifoldeb rhiant yn ystod cyfnod y gorchymyn.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad, lle bo tad sydd heb gyfrifoldeb rhiant yn ymarfer cyfrifoldeb rhiant i bob pwrpas o ganlyniad i orchymyn llys, y dylai hynny gael ei gydnabod yn ffurfiol gan y llys drwy ddyfarnu cyfrifoldeb rhiant. Mae'r gyfraith bresennol eisoes yn golygu bod y rhan fwyaf o rieni'n cael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig; felly, os yw tadau dibriod yn cael cyfrifoldeb rhiant gan y llys yn y modd hwn ni ddylai eu cyfrifoldeb rhiant gael ei gyfyngu i gyfnod y gorchymyn. Lle bo aelod o'r teulu ehangach yn ymarfer cyfrifoldeb rhiant o ganlyniad i orchymyn llys, mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai'r cyfrifoldeb rhiant fod yn gyfyngedig i gyfnod y gorchymyn. Pe bai cyfrifoldeb rhiant yn cael ei ddyfarnu i aelodau o'r teulu ehangach ar sail barhaol, mae trefniadau gofal y plentyn yn debygol o gael eu cymhlethu'n ddiangen. Mae'r cynigion hyn yn gyson ag ymdrechion ehangach i ddal i ganolbwyntio'n glir ar anghenion y plentyn yn ogystal ag ar gyfrifoldebau unigolion eraill i ddiwallu'r anghenion hynny.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
109	Dylid parhau â'r cyfleuster i symud y plentyn o awdurdodaeth Cymru a Lloegr am hyd at 28 o ddiwrnodau heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno ar argymhelliad yr Adolygiad i gadw'r ddarpariaeth hon, ar y sail y gall helpu i osgoi ceisiadau diangen i'r llys a cheisiadau lle nad oes anghytundeb. Bydd yr angen am welliannau ôl-ddilynol yn cael ei ystyried fel rhan o waith ehangach yn deillio o'r bwriad i gyflwyno gorchymyn trefniadau plentyn a dileu gorchmynion cyswllt a phreswylio sy'n bodoli ar hyn o bryd.
110	Dylid parhau â'r ddarpariaeth sy'n cyfyngu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant rhag newid cyfenw'r plentyn heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad yr Adolygiad i gadw'r ddarpariaeth hon. Gall mater enw plentyn fod yn un dadleuol iawn; mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol na ellir newid enw plentyn heb gael cytundeb pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant. Bydd yr angen am welliannau ôl-ddilynol yn cael ei ystyried fel rhan o waith ehangach yn deillio o'r bwriad i gyflwyno gorchymyn trefniadau plentyn (a dileu gorchmynion cyswllt a phreswylio).
Proses gydlynol o ddatrys anghydfodau			
111	Dylai'r Llywodraeth sefydlu canolfan wybodaeth ar-lein a llinell gymorth i roi gwybodaeth a chefnogaeth i gyplau i'w helpu i ddatrys materion ar ôl ysgaru neu wahanu y tu allan i'r llys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen i fynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth barhaus i deuluoedd fod yn symlach, yn haws ac yn fwy hwylus. Mae'r Llywodraeth yn ystyried sut y gallai'r diwygiadau sy'n cael eu cynllunio i'r system Cynnal Plant fod yn gyfle i sefydlu seilwaith technegol ar gyfer canolfan wybodaeth ar-lein, yn ogystal â llinell gymorth a all gynnig cefnogaeth i bob teulu sy'n gwahanu.
112	Dylid ailenwi 'dulliau amgen o ddatrys anghydfod' yn 'Wasanaethau Datrys Anghydfod', er mwyn lleihau un rhwystr rhag eu defnyddio.	Derbyn	Bydd y Llywodraeth yn dechrau defnyddio'r term 'Gwasanaethau Datrys Anghydfod' ar unwaith.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
113, 117	Lle mae angen ymyrraeth, dylid disgwyl i rieni sy'n gwahanu ddod i sesiwn gyda chyfryngwr, sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu at safon broffesiynol uchel, a ddylai: i) asesu i ganfod yr ymyriad mwyaf priodol, gan gynnwys cyfryngu a chyfraith gydweithredol, neu a yw'r perygl o drais domestig, anghydbwysedd rhwng y partïon neu ystyriaethau amddiffyn plant yn galw am atgyfeirio ar unwaith at y llys teulu; a ii) darparu gwybodaeth am Wasanaethau Datrys Anghydfodau lleol a sut y gallent helpu partïon i ddatrys anghydfodau. Dylai presenoldeb mewn Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu ac mewn Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais i lys. Ni ellir mynnu hyn gan atebwyr, ond fe ddylid ei ddisgwyl.	Derbyn (mewn egwyddor)	Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw'r protocol Cyn Cais ar gyfer cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu (MIAM) a gyflwynwyd yn Ebrill 2011 yn orfodol. Bydd y Llywodraeth yn ystyried camau eraill er mwyn ategu'r disgwyliad i rieni sy'n gwahanu fynd i gyfarfod cychwynnol gyda chyfryngwr hyfforddedig fel mater o drefn cyn mynd i'r llys. Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu gwneud diwygiad statudol pellach er mwyn ategu'r Protocol Cyn Gweithredu presennol a sicrhau bod angen tystiolaeth o fod mewn cyfarfod cychwynnol gyda chyfryngwr (ffurflen FM1 wedi'i llenwi gan y cyfryngwr) ym mhob achos cyn y gellir mynd ymlaen i'r llys. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai eithriadau mewn achosion o drais domestig. Bydd angen i gyfryngwr fod â sgiliau i asesu anghenion cleient a dylai allu adnabod a rhoi cyngor ynglŷn â pha fath o ymyriad datrys anghydfod fyddai'n briodol. Bydd hefyd yn defnyddio'i farn broffesiynol i nodi achosion nad ydynt yn addas ar gyfer cyfryngu, gan gynnwys achosion o drais domestig, a bydd yn adrodd am hyn i'r llys lle bo achos yn cael ei gychwyn yn dilyn hynny. Bydd y Llywodraeth yn ystyried sut y gellir gwella'r gronfa ddata Cyfryngu Teuluol, y ceir mynediad ati ar hyn o bryd drwy Directgov; mae'r gronfa ddata'n darparu manylion i ddefnyddwyr am eu gwasanaeth(au) cyfryngu teuluol achrededig agosaf. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth rhaglenni rhianta pwrpasol o ran cefnogi rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eu plant, a'u galluogi i ddatrys anghydfodau. Felly mae'r Llywodraeth yn archwilio sut y gall annog pobl i ymgymryd â chyrsiau o'r fath gerbron y llys.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
114	Byddai angen i'r cyfryngwr sydd i wneud yr asesiad cychwynnol (Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu) fod yn ymarferydd allweddol nes gwneud cais i'r llys.	Derbyn	Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Cyngor Cyfryngu Teuluol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei fabwysiadu fel ymarfer gorau gan wasanaethau cyfryngu.
115	Byddai'r gyfundrefn yn caniatáu ceisiadau brys i'r llys a dylai'r eithriadau fod fel y rheini sydd yn y Protocol Cyn Cais.	Derbyn	Cafodd nifer yr eithriadau y gall cyfreithwyr eu cymhwyso i unigolion sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol ei resymoli yn Nhachwedd 2010 ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn y protocol cyn cais cyfredol ar gyfer Cyfarfodydd Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu. Bydd y Llywodraeth yn ystyried effaith rhesymoli'r eithriadau ac a ellid cyfyngu rhagor arnynt.
116	Pe bai rhieni heb allu cytuno o hyd, dylent gymryd rhan wedyn mewn Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ac ar ôl hynny, os oes angen, defnyddio gwasanaeth cyfryngu neu wasanaeth datrys anghydfodau arall.	Derbyn	Prif nod y Rhaglen Wybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu yw cynorthwyo rhieni i ddod i gytundeb mewn anghydfodau yn ymwneud â threfniadau plentyn drwy eu cynorthwyo i wella'r berthynas sydd ganddynt gyda'u cyn bartner. Mae hyn yn helpu rhieni i ganolbwyntio ar anghenion eu plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar y gwrthdaro. Mae tystiolaeth gwerthusiad yn awgrymu bod y rhaglen yn galluogi rhieni i ddeall eu problemau'n well a'u trafod; a bod Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu'n gweithio orau pan fo rhieni'n cymryd rhan yn gynnar yn y broses datrys anghydfod (yn hytrach na phan fo achos wedi mynd yn ei flaen ymhellach yn y llysoedd). Ar hyn o bryd, nid yw Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ar gael i rieni nes bydd eu hanghydfod yn cyrraedd y llys. Bydd y Llywodraeth yn sefydlu prosesau i sicrhau bod rhaglenni o'r fath ar gael i rieni fel rhan o brosesau datrys anghydfodau cyn llys.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
118	Dylai barnwyr gadw'r pŵer i orchymyn i bartïon gymryd rhan mewn sesiwn gwybodaeth cyfryngu a Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu, ac maent yn cael gwneud gorchmynion am gostau lle y teimlir bod un parti wedi ymddwyn yn afresymol.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Ymchwil wedi dangos bod y Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni wedi bod yn werthfawr i rieni yn ystod pob cam o'u hanghydfod ac mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai barnwyr gadw'r pŵer i orchymyn i rieni fynd ar y cyrsiau hyn lle mae'r barnwr yn teimlo bod hynny'n briodol.
119	Lle na fu modd dod i gytundeb, byddai un o'r partïon, neu'r ddau, ar ôl cael tystysgrif gan y cyfryngwr, yn gallu gwneud cais i'r llys.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn cydnabod, er enghraifft, y gallai darpar atebydd mewn achos llys wrthod cymryd rhan mewn Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu neu mewn unrhyw wasanaeth datrys anghydfod, felly mae angen i ddarpar geisydd gael mynediad i'r llysoedd mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd addysg a newidiadau i brosesau yn golygu maes o law y bydd mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau datrys anghydfod ar wahân i'r llys, yn enwedig cyfryngu.
120	Dylai fod yn ofyniad sylfaenol i gyfryngwyr fodloni'r gofynion presennol sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Dylid adolygu'r safonau hyn eu hunain yng nghyd-destun y cyfrifoldebau newydd a roddir i gyfryngwyr. Dylai cyfryngwyr nad ydynt yn bodloni'r safonau hynny ar hyn o bryd gael cyfnod penodol i'w cyrraedd.	Derbyn	Bydd y Llywodraeth yn dal i weithio gyda'r Cyngor Cyfryngu Teuluol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau achredu'n cael eu cydgordio a bod cyfryngwyr yn gallu cael mynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
121	Dylai llywodraeth gadw golwg manwl ac adolygu cynnydd y Cyngor Cyfryngu Teuluol er mwyn asesu ei effeithiolrwydd wrth gynnal ac ategu safonau uchel. Os bydd angen, dylid sefydlu rheoleiddiwr annibynnol yn lle'r Cyngor Cyfryngu Teuluol.	Derbyn	Mae'r Athro John McEldowney wedi cael ei gomisiynu i gynnal adolygiad annibynnol o'r Cyngor Cyfryngu Teuluol. Mae dau bwrpas i'r adolygiad: Rhan I – bodloni a) Bwrdd y Cyngor Cyfryngu Teuluol; b) Byrddau a Phwyllgorau perthnasol y Sefydliadau sy'n Aelodau ohono; ac c) adrannau perthnasol y Llywodraeth, bod ymarfer da i'w weld yn y Sefydliadau sy'n Aelodau o'r Cyngor Cyfryngu Teuluol; a hefyd bod budd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu drwy gyfryngu a thrwy ddarparu gwasanaethau cyfryngu; Rhan II – ystyried beth ddylai rôl y Cyngor Cyfryngu Teuluol fod, a oes angen ei newid neu ei gryfhau er mwyn bodloni'r gofynion presennol, a gofynion y dyfodol, a sut y gellid cyflawni hyn. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl cael adroddiad interim yn gynnar yn 2012 a bydd yn edrych yn ofalus ar gasgliadau'r adroddiad a'r argymhellion.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
122	Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu sicrhau, mewn achosion sy'n cynnwys plant, fod gwiriadau diogelu wedi'u cwblhau ar y pwynt mynediad i'r system llysoedd.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod gwiriad diogelu cychwynnol yn hanfodol ar yr adeg pan mae'r llys yn dechrau ymwneud ag anghydfod cyfraith breifat. Mae trefniadau wedi'u sefydlu'n barod, drwy Cafcass a Cafcass Cymru, i sicrhau bod gwiriadau diogelu cychwynnol yn cael eu gwneud a bod y partïon yn cael cyfle cyn y Gwrandawiad Cyntaf i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â diogelu. Mewn achosion sy'n cael eu datrys heb fynd i'r llys, drwy ddefnyddio gwasanaethau datrys anghydfod priodol, mae nodi materion diogelu yr un mor bwysig. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen i gyfryngwyr, a sefydliadau eraill sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, ddefnyddio'u barn broffesiynol i nodi achosion nad ydynt yn addas ar gyfer cyfryngu ac ymyriadau eraill ar wahân i'r llys (oherwydd trais domestig neu bryderon eraill). Gellir cyfeirio'r rhain i'r llys wedyn drwy'r broses briodol.
123	Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth sefydlu system traciau yn ôl cymhlethdod yr achos. Dylai'r trac syml benderfynu materion cyfyng lle byddai rheolau ac egwyddorion rheoli achosion wedi'u teilwra'n gymwys.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai achosion llai cymhleth gael trac ar wahân fel bod modd eu cwblhau'n gynt. Nod Rhaglen Cyfraith Breifat bresennol Llywydd yr Adran Deulu yw cyfyngu, yn y gwrandawid datrys anghydfod cyntaf, y materion y mae angen penderfynu yn eu cylch, a gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut y dylai'r achos fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes system traciau ffurfiol i ddyrannu'r achosion hyn iddi yn dilyn y gwrandawiad cyntaf. Dylid gwneud rhagor o waith felly i ddatblygu a gweithredu system traciau o'r fath. Bydd angen ystyried sut y bydd hyn yn gweithio â chynigion i wella dilyniant barnwrol ac osgoi oedi diangen.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
124	Dylid cadw Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf. Lle bo angen i'r llys ymwneud rhagor ar ôl hyn, dylai'r barnwr ddyrannu'r achos i drac syml neu drac cymhleth gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd unrhyw newid i'r Rhaglen Cyfraith Breifat bresennol lle mae'r llys yn ymwneud â helpu partïon i chwilio am ffordd o ddatrys eu hanghydfod. Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd unrhyw newid i'r Rhaglen Cyfraith Breifat bresennol lle mae'r llys yn ymwneud â helpu partïon i chwilio am ffordd o ddatrys eu hanghydfod yn y gwrandawiad cyntaf. Y cwestiwn yw sut y gellir mynd ag achosion yn eu blaenau'n effeithiol dan system draciau yn dilyn y gwrandawiad cyntaf. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r farnwriaeth i ystyried sut byddai system o'r fath yn gweithio..
125	Rhaid i'r barnwr a ddyrannwyd i wrando'r achos ar ôl Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf barhau'n farnwr ar gyfer yr achos hwnnw.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ac yn credu bod hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn rhoi ffydd i'r partïon bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud gan farnwr sy'n adnabod y teulu ac sy'n gyfarwydd â holl ffeithiau'r achos. Fodd bynnag, rhaid i'r broses o ddyrannu barnwyr unigol i achosion (neu restru) fod yn fater barnwrol. Mae angen i benderfyniadau rhestru ystyried amgylchiadau lleol a'r angen i osgoi oedi diangen. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r swyddfa farnwrol a GLlTEM er mwyn hyrwyddo'r canllawiau presennol ar ddilyniant yn y llysoedd teulu ymhellach.
126	[gweler argymhelliad 2]		

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
127	Dylai'r llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gellir amddiffyn plant a thystion sy'n agored i niwed pan fyddant yn rhoi tystiolaeth mewn achosion teuluol.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith)	Mae barnwyr eisoes yn meddu ar y pŵer a'r hyfforddiant i sicrhau bod y broses dystiolaeth yn cael ei thrin yn sensitif ar gyfer plant a thystion sy'n agored i niwed. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys ymyrryd er mwyn atal cwestiynu amhriodol, neu sicrhau bod cwestiynau'n cael eu trosglwyddo i'r tystion (gellir defnyddio cysylltiadau fideo hefyd), yn hytrach na'u gofyn yn uniongyrchol. Ni allant, fodd bynnag, atal croesholi'n gyfan gwbl. Yn ôl arolwg bychan o lysoedd yn 2010 ychydig iawn o achosion o'r fath sy'n digwydd, ac awgrymodd fod y llysoedd teulu wedi'u harfogi'n dda yn barod er mwyn ymdrin ag unrhyw gamddefnydd o groesholi. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod perygl y bydd nifer yr achosion o'r fath yn cynyddu yn dilyn diwygio cymorth cyfreithiol, ond eu bod yn debygol o barhau'n gymharol anghyffredin. Bydd y Llywodraeth yn dal i weithio gyda'r farnwriaeth er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r mater hwn.
128	Lle mae gorchymyn wedi'i dorri o fewn y flwyddyn gyntaf, dylai'r achos fynd yn syth yn ôl i'r llys at yr un barnwr er mwyn datrys y mater yn gyflym. Dylai'r pwerau gorfodi presennol fod ar gael. Dylid gwrando'r achos o fewn nifer penodedig o ddiwrnodau, gan ddatrys yr anghydfod mewn un gwrandawiad. Os caiff gorchymyn ei dorri ar ôl 12 mis, dylid disgwyl i'r partïon fynd yn ôl at y Gwasanaethau Datrys Anghydfodau cyn dychwelyd i'r llys i geisio camau gorfodi.	Derbyn mewn egwyddor (ond mae angen rhagor o waith)	Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adolygiad bod gorfodi gorchmynion cyswllt yn fater anodd a bod angen mynd i'r afael ag ef. Mae'n annerbyniol i gyswllt a orchmynnwyd er lles y plentyn gael ei atal gan nad yw rhieni wedi cydymffurfio â thelerau'r gorchymyn llys. Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno â chasgliad yr Adolygiad nad mesurau gorfodi ychwanegol yw'r ateb. Er bod gan y llysoedd nifer o bwerau gorfodi yn barod (dirwy neu garchar am ddirmyg llys; gorfodi gwaith di-dâl; a dyfarnu iawndal am golled ariannol a ddioddefwyd gan y rhiant arall) mae rhwystrau ymarferol a thystiolaethol sy'n golygu mai ychydig o ddefnydd a wneir o'r cosbau hyn yn ymarferol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
			Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu edrych ar ddichonolrwydd darparu pwerau gorfodi ehangach i'r llysoedd fel bod modd defnyddio'r rhain mewn achosion priodol i fynd i'r afael ag anufudd-dod bwriadol â gorchymyn y llys. Dylid sicrhau hefyd bod rhieni'n ymwybodol ar ddechrau'r achos o ganlyniadau posibl anufuddhau i unrhyw orchymyn a wneir gan y llys ac mae'r Llywodraeth yn credu y gallai hyn helpu i sicrhau nad yw'r sylw i gyd yn troi o amgylch gorfodaeth. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â byrdwn argymhelliad yr Adolygiad mai'r allwedd i sicrhau trefniadau cyswllt cynaliadwy yw darparu mwy o addysg i rieni a'u cynorthwyo i ddod i gytundeb y gellir ei weithredu. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r egwyddor, lle bo gorchymyn cyswllt yn cael ei dorri, y dylai'r achos gael ei anfon yn ôl i'r llys ar drac cyflym ar gyfer gwrandawiad un achos i ddatrys y mater. Mae'r Llywodraeth yn credu bod hyn yn allweddol er mwyn torri'r cylch o gyfreitha parhaus a pheidio â chydymffurfio. Bydd angen ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol gyda GLITEM.
129	Ni ddylid cael cysylltiad o unrhyw fath rhwng cyswllt a chynhaliaeth.	Derbyn	Rhaid i benderfyniadau ynghylch trefniadau ar gyfer gofal plentyn gael eu seilio ar y budd mwyaf i'r plentyn unigol. Byddai atal cyswllt os nad yw tâl cynhaliaeth yn cael ei dalu, neu leihau'r tâl cynhaliaeth sy'n daladwy os yw rhiant yn atal cyswllt, yn rhoi'r egwyddor hollbwysig hon mewn perygl o gael ei thanseilio. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd darpariaethau gorfodi effeithiol fel nad yw trefniadau sy'n cael eu gorchymyn gan y llys yn cael eu diystyru, ac mae'n ystyried sut y gellid cryfhau'r darpariaethau a'r arferion presennol er mwyn cyflawni hyn.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
Ysgariad a threfniadau ariannol			
130	Dylai'r broses ar gyfer cychwyn achos ysgaru ddechrau â'r ganolfan wybodaeth ar-lein a dylai gael ei drafod yn weinyddol gan y llys, oni bai fod anghytundeb ynghylch yr ysgariad.	Derbyn	Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gallai trafod ysgariadau yn weinyddol, mewn achosion lle nad oes anghytundeb, arwain at fanteision ac arbedion. Bydd hyn yn effeithio ar fater dyfarniad (ysgariad) neu orchymyn absoliwt ar gyfer diddymu partneriaeth sifil. Mae'r dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol eisoes yn cael ei gyflwyno'n weinyddol. Gallai hyn arbed llawer iawn o amser barnwyr (â thua 130,000 o geisiadau am ysgariad a diddymiad bob blwyddyn). Ni fydd y broses yn berthnasol i geisiadau ar gyfer dirymu na rhagdybio marwolaeth, gan fod yn rhaid cael penderfyniad barnwrol ar gyfer y rhain. Er hyn, gellir ymdrin â cheisiadau nad oes anghytundeb yn eu cylch am wahaniad barnwrol neu wahaniad partneriaid sifil yn weinyddol. Byddai effaith yr argymhelliad hwn yn ogystal â'r argymhellion yng nghyswllt trefniadau plant yn gyffredinol yn golygu na fyddai'r llys yn ystyried trefniadau ar gyfer plant mewn achosion ysgariad nad oes anghytundeb yn eu cylch. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig yn nodi na ddylid ystyried trefniadau ar gyfer plant mewn unrhyw achos ysgaru, diddymu neu wahanu. Byddai cyplau sy'n gwahanu neu'n ysgaru yn gallu defnyddio gwasanaethau datrys anghydfodau neu, pe na bai'r rhain yn llwyddo i ddatrys gwahaniaethau, i gymryd camau dan Ddeddf Plant 1989 neu achos arall yn ymwneud â'u plant a'u trefniadau ariannol a fyddai'n cael ei ystyried gan farnwr yn dilyn hynny.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
131	Dylid disgwyl i bobl sydd mewn anghydfod ynghylch arian neu eiddo gael mynediad at y ganolfan wybodaeth ar-lein a dylai fod yn ofynnol iddynt gael eu hasesu ar gyfer cyfryngu.	Derbyn	Mae gwybodaeth a chyfarwyddyd i bobl sydd mewn anghydfod ynghylch arian neu eiddo ar gael ar hyn o bryd ar Directgov. Wrth i'r ganolfan wybodaeth ar-lein gael ei datblygu (gweler argymhelliad 111) bydd yn bwysig bod pobl yn ymwybodol ohoni ac yn ymwneud â'i defnyddio fel adnodd i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Bydd yr wybodaeth yn nodi'n glir y bydd angen i bobl fynd i gyfarfod Gwybodaeth ac Asesu Cyfryngu os ydynt mewn anghydfod cyn iddynt gyflwyno eu cais i'r llys, onibai bod un o'r eithriadau yn y Protocolau Cyn gweithredu yn berthnasol.
132	Lle bo modd, dylid ystyried yr holl faterion sy'n destun anghydfod ar ôl gwahanu gyda'i gilydd, boed drwy gyfryngu ar yr holl faterion neu mewn gwrandawiadau llys cyfunol. Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth ystyried sut y gellid cyflawni hyn mewn llysoedd. Dylid gofalu na fydd hyn yn achosi oedi ychwanegol, yn enwedig mewn cysylltiad â phlant.	Derbyn (yn amodol ar ragor o waith i asesu di-chonolrwydd gwrandawi-adau llys cyfunol)	Bydd y Llywodraeth yn annog y Cyngor Cyfryngu Teuluol i hyrwyddo 'cyfryngu ar yr holl faterion'. Mae'n bosibl y bydd angen addasu'r trefniadau achredu a hyfforddi cyfryngwyr a byddwn yn gwneud yn siŵr nad oes effaith negyddol ar wasanaethau cyfryngu. Mae'r llywodraeth yn bryderus na ddylai gwrandawiadau llys cyfunol danseilio ymdrechion i annog datrys anghydfodau drwy wasanaethau Datrys Anghydfod ar wahân i'r llys. Ni fyddem am greu cymhelliant gwrthynysig i ddod ag achosion i'r llys. Byddwn yn ystyried manteision ac anfanteision posibl newid o'r fath â'r farnwriaeth a GLlTEM.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
133	Dylai llywodraeth sefydlu adolygiad ar wahân o orchmynion ariannol a hynny'n cynnwys archwiliad o'r gyfraith.	Yn digwydd	Mae Comisiwn y Gyfraith eisoes yn gweithredu prosiect sy'n edrych sut y gellid gwneud darpariaeth i roi grym cyfreithiol i drefniadau cyn priodi, ar ôl priodi ac wrth wahanu, er mwyn rhoi mwy o reolaeth a sicrwydd i gyplau ynglŷn â sut y bydd eu hasedau'n cael eu rhannu ar ôl ysgariad. Mae'r Gweinidogion wedi cytuno y dylid ymestyn y prosiect hwn i gynnwys rhywfaint o ddiwygiadau i'r gyfraith sylwedd ar Orchmynion Ariannol. Bydd yn cymryd tua 18 mis i gwblhau'r prosiect cyfan. Bydd Comisiwn y Gyfraith hefyd yn cynnal prosiect ar wahân i wneud argymhellion ar gyfer gwella'r modd y gorfodir Gorchmynion Ariannol. Bydd y ddau brosiect hyn, gyda'i gilydd, yn gwella'r gyfraith sylwedd ac yn hwyluso'r broses o orfodi Gorchmynion Ariannol ar ôl iddynt gael eu gwneud gan y llys.
134	Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fonitro effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol yn fanwl. Mae'r cyflenwad o gyfreithwyr teulu â chymwysterau priodol yn hanfodol i amddiffyn plant.	Derbyn	Cyflawnodd y Llywodraeth ddadansoddiad llawn o effaith debygol y diwygiadau a chyhoeddodd ef ochr yn ochr â'r ymateb i'r *Cynigion ar gyfer Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr*. Cadarnhaodd y dadansoddiad hwn fod y diwygiadau arfaethedig i'r ffioedd yn debygol o fod yn gynaliadwy. Ers hynny, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi dechrau tendr ar gyfer contractau teuluol dros dro (nes bydd y newidiadau arfaethedig yn y Bil Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr wedi cael eu cyflwyno) ar sail y ffioedd is newydd. Mae'r canlyniadau'n dangos nad oes unrhyw fylchau amlwg, ac nad oes unrhyw feysydd lle bydd mynediad at wasanaethau'n cael ei roi yn y fantol, ac mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn hyderus y bydd y trefniadau'n fwy na digonol.

Rhif	Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol	Derbyn/ Gwrthod	Rheswm
			Yn fwy cyffredinol, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn monitro effaith y ffioedd newydd yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o unrhyw brinder gwasanaethau ac mae'r Llywodraeth yn gweithio mewn cysylltiad agos â hwy er mwyn iddynt allu ymateb yn fuan, yn effeithiol ac yn briodol a sicrhau bod plant yn dal i gael mynediad at wasanaethau â chymorth cyfreithiol lle bo angen. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn datblygu a sefydlu strategaeth gadarn ar gyfer cleientiaid a darparwyr. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r ffordd orau o sicrhau bod plant yn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae'n ffyddiog y bydd digon o ddarparwyr o hyd fydd yn barod i wneud gwaith cymorth cyfreithiol teuluol dan y strategaeth newydd ar ôl i'r cynigion gael eu gweithredu'n llawn.